



**Cyfoeth  
Naturiol**  
Cymru  
**Natural  
Resources**  
Wales



# Gwasanaethau diweddaredig yr Awdurdodau Lleol a'r amgylchedd dŵr

Nodyn Cyngor am y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

## Ynglŷn â Cyfoeth Naturiol Cymru

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw cynnal rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol yn ei holl waith. Mae hyn yn golygu gofalu am yr aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd er mwyn gwella lles Cymru, a darparu dyfodol gwell i bawb.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn amlinellu ein diben statudol. Wrth ymarfer ei swyddogaethau, rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru:

1. geisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy mewn perthynas â Chymru
2. cymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Mae dyletswydd arnom hefyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i fwyhau ein cyfraniad at y saith nod llesiant, trwy reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

## Ynglŷn â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn cynrychioli buddiannau llywodraeth leol ac yn hyrwyddo democratiaeth leol yng Nghymru. Mae'n cynrychioli 22 awdurdod lleol Cymru, ac mae awdurdodau'r tri gwasanaeth tân ac achub a'r tri pharc cenedlaethol yn aelodau cyswllt.

Prif ddibenion CLILC yw hyrwyddo safonau ac enw da llywodraeth leol a helpu'r awdurdodau i ddatblygu polisïau a blaenoriaethau a fydd yn gwella gwasanaethau i'r cyhoedd a democratiaeth.

Cafodd ei sefydlu'n wreiddiol ym 1996 yn gorff llunio polisïau a chynrychioli, ond, ers hynny, mae CLILC wedi tyfu'n sefydliad sy'n arwain ym meysydd datblygu a gwella, cydraddoldeb, caffael a materion cyflogaeth hefyd, ac mae ganddi amrywiaeth eang o bartneriaid sy'n ymwneud â maes llywodraeth leol:

Mae CLILC yn dal i fod yn rhan o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Lloegr. Ers mis Ebrill 2005, mae wedi newid ei haelodaeth i fod yn aelod cyswllt gan ofalu ei bod yn parhau i gynrychioli buddiannau llywodraeth leol Cymru gerbron Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

## RHAGAIR


Mae adfer amgylchedd dŵr Cymru yn flaenoriaeth ac yn un o'r camau allweddol yn rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd a chynaliadwyedd. Mae'n mynnu dull integredig o gynllunio a rheoli ein dŵr a'r ecosystem ehangach, gan gydbwysu blaenoriaethau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Bydd gweithio'n gydweithredol yn helpu i gyflenwi'r blaenoriaethau hyn sydd gan Lywodraeth Cymru a dyma'r sylfaen hefyd ar gyfer arfer dull ecosystemau a fydd o fudd i ni yn awr ac yn y dyfodol.

Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (y Gyfarwyddeb) yn offeryn allweddol i gyflawni'r blaenoriaethau hyn, ac mae'n gosod fframwaith ar gyfer sicrhau buddion sylweddol wrth reoli ein dyfroedd mewn modd cynaliadwy yn y tymor hir a gyflenwir trwy Gynlluniau Rheoli Basnau Afonydd. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn effeithio ar bob un ohonom. Fel unigolion, rydym yn defnyddio dŵr bob dydd, ar y lefel fwyaf sylfaenol, i'w yfed, i ymolchi, i goginio ac i gael gwared ar wastraff dynol. Rydym yn defnyddio dŵr yn y nwyddau a brynwn ac yn y prosesau diwydiannol sy'n eu gwneud. Rydym yn defnyddio dŵr ar gyfer hamdden, amaethyddiaeth, pysgota a chlundiant. Mae dŵr yn hanfodol i'n hiechyd, i'n lles, i'r economi ac er mwyn sicrhau amgylchedd iach, gweithrediadol yr ydym i gyd yn dibynnu ar ei wasanaethau. Fodd bynnag, oherwydd ein gweithredoedd, mae'r berthynas fregus rhwng pridd, dŵr a llystyfiant wedi newid. Mae datblygiadau trefol, y seilwaith draenio ac amddiffynfeydd llifogydd wedi dwysáu'r problemau hynny ymhellach. Mae ein holl weithgareddau'n pwysu'n drwm ar ansawdd dŵr ac ar faint ohono sydd ar gael, ac ar yr ecosystemau y mae'n eu cynnal a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu ar gyfer y gymdeithas.


Swyddogaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yw datblygu'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd gyda rhanddeiliaid allweddol, ac egluro'r dull yng Nghymru o wella ansawdd ac iechyd ecolegol ein holl ddyfroedd. O'r herwydd, mae gan Awdurdodau Lleol rôl allweddol o ran cyfrannu at gynllunio, gwireddu a hyrwyddo'r Cynlluniau hyn wrth ymarfer eu swyddogaethau. Mae'r nodyn hwn yn rhoi gwybodaeth bellach am y modd y gall Awdurdodau Lleol gyfrannu wrth ddiwallu'r amcanion hyn, a gwybodaeth gefndirol bellach am y Gyfarwyddeb.

Yng Nghymru, mae'r Gyfarwyddeb bellach yn rhan o gyd-destun ehangach dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru'n cydnabod pwysigrwydd cydweithio. Mae angen gwell dealltwriaeth o swyddogaethau a chyfrifoldebau ein priod sefydliadau ar bob un ohonom, yn ogystal â rhai ein partneriaid, a sut y gallant gyfrannu at ofynion y Gyfarwyddeb.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn rhoi fframwaith cyflenwi ar waith ar gyfer y gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn cyflwyno rhywfaint o egwyddorion syml i danategu'r modd yr ydym oll yn gweithio. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gofyn i 44 o Gyrrff Cyhoeddus yng Nghymru weithio mewn modd cynaliadwy, a meddwl am yr effaith y gall ein gwaith ei chael ar bobl sy'n byw yng Nghymru, yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd yn gosod fframwaith ar gyfer rhannu'r gwaith o wneud penderfyniadau a chyflenwi ar y cyd. Bydd hyn yn ein helpu i ganolbwyntio ar ddull mwy integredig tuag at reoli adnoddau naturiol, gan archwilio gwir achosion problemau a gweithio gyda rhanddeiliaid i ddod o hyd i atebion sy'n gwella amgylchedd dŵr Cymru ac sy'n sicrhau'r buddion ehangaf.



Ruth Jenkins  
Pennaeth Rheoli Adnoddau Naturiol  
Cyfoeth Naturiol Cymru



Tim Peppin  
Cyfarwyddwr Adfywio a Rheoli Cynaliadwy  
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

## Cynnwys

Beth yw'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr? .....	Tudalen 5
Swyddogaethau lleol a'r amgylchedd dŵr .....	Tudalen 8
Arferion da a chanllawiau .....	Tudalen 23
Amserlen .....	Tudalen 24
Ffynonellau cymorth a rhagor o wybodaeth .....	Tudalen 25
Rhestr Termau .....	Tudalen 26

## 1. Beth yw'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr?

Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (y Gyfarwyddeb) yw'r darn mwyaf sylweddol o ddeddfwriaeth amgylcheddol a gynhyrchwyd erioed gan y Comisiwn Ewropeaidd. Daeth i rym ym mis Rhagfyr 2000 ac yn rhan o gyfraith y Deyrnas Unedig ym mis Rhagfyr 2003 <sup>1</sup> (fel y'i diwygiwyd)<sup>2</sup>. Rhoddir y Gyfarwyddeb ar waith ledled Cymru a Lloegr trwy Reoliadau Amgylchedd Dŵr 2003. Diddymwyd y Rheoliadau hyn ym mis Ebrill 2017 gan Reoliadau'r Amgylchedd Dŵr (y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017.

Tri phrif egwyddor y Gyfarwyddeb yw: amddiffyn (atal dirywiad), adfer (anelu at gyflawni 'statws da neu well' a hyrwyddo gwerth yr amgylchedd dŵr. [Gweler ffeithluniau'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afon](#). Mae'n gosod targed ar gyfer yr holl ddyfroedd; statws cyffredinol dda (e.e. pryfed, planhigion, pysgod a chemeg) sy'n fesur o ddŵr iach ac amserlen i gyflawni hyn. Nod y Rheoliadau hyn yw darparu fframwaith integredig i amddiffyn ac adfer yr amgylchedd dŵr trwy gymryd y camau a restrir mewn Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd. Mae'r ddogfen hon yn adlewyrchu'r angen i ddiwallu gofynion Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd, a byddai'n cael ei hadolygu wrth i newidiadau godi yn dilyn proses Brexit.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dynodi Cyfoeth Naturiol Cymru yn Asiant Priodol i ddatblygu a throsglwyddo'r dull yng Nghymru o wella ansawdd ac iechyd ecolegol ein holl ddyfroedd. Mae'r rhain yn cynnwys afonydd, nentydd, ffyrddiau, llynnoedd, aberoedd, camlesi, dyfroedd arfordirol hyd at filltir o'r distyll, cyrff dŵr daear a phob ardal warchoddedig sy'n dibynnu ar ddŵr. Mae Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr 2017 yn mynnu bod Awdurdodau Cyhoeddus, gan gynnwys Awdurdodau Lleol, yn "rhoi sylw i'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd ac unrhyw gynlluniau atodol wrth ymarfer eu swyddogaethau" a sicrhau nad yw statws cyrff dŵr yn dirywio trwy eu gweithredoedd.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn amlinellu saith nod llesiant sy'n disgrifio'r math o Gymru yr hoffwn ei gweld. Mae'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd yn rhan allweddol o reoli adnoddau naturiol. Mae [Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol Cymru 2016](#) yn amlinellu cyflwr adnoddau naturiol Cymru. Mae'n asesu i bad raddau y mae adnoddau naturiol yng Nghymru'n cael eu rheoli'n gynaliadwy, ac yn argymhell dull rhagweithiol o feithrin gwydnwch. Mae'r adroddiad yn cysylltu gwydnwch adnoddau naturiol Cymru â llesiant pobl Cymru, fel y'u hamlinellir yn [Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei Pholisi Adnoddau Naturiol sy'n amlinellu cyd-destun cenedlaethol ar gyfer ein gwaith ac yn dangos cysylltiad clir rhwng rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a rhaglen y llywodraeth. Caiff datganiadau ardal eu datblygu gan Cyfoeth Naturiol Cymru gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i roi'r polisi hwn ar waith. Mae datganiadau ardal yn sail tystiolaeth i helpu i integreiddio'n well cynlluniau a rhaglenni Cyfoeth Naturiol Cymru a rhai sefydliadau eraill.

### 1.2 Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd a'u hamcanion

Ar gyfer pob Ardal Basn Afon, mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn mynnu bod Cynllun Rheoli Basn Afon yn cael ei gyhoeddi. Mae'r cynlluniau rheoli hyn yn amlinellu'r amcanion amgylcheddol ar gyfer yr holl gyrff dŵr o fewn yr Ardal Basn Afon a sut y byddant yn cael eu cyflawni. Bydd y cynlluniau'n seiliedig ar ddadansoddiad manwl o'r pwysau ar gyrff dŵr ac asesiad o'u heffeithiau. Rhaid i'r cynlluniau gael eu hadolygu a'u diweddarau bob chwe blynedd. Mae gan Gymru dair Ardal Basn Afon: mae Gorllewin Cymru'n gyfan gwbl o fewn tiriogaeth Cymru, mae Hafren a Dyfrdwy'n croesi'r ffin i Lloegr (gweler Ffigur 1). Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n arwain cynlluniau Dyfrdwy a Gorllewin Cymru, ac mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn arwain cynllun Hafren. Rydym yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd a phartneriaid ar agweddau trawsffiniol Dyfrdwy a [Hafren](#). Mae [Cynlluniau Rheoli Basnau Afon diweddaredig 2015-2021](#) ar gael ar y wefan. Mae'r cynlluniau diweddaredig wedi cael eu dylanwadu'n lleol gan yr adborth o'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd yn ystod y gylchred gyntaf.


<sup>1</sup> Offeryn Statudol (OS) 2003/3242.

<sup>2</sup> Rheoliadau Amgylchedd Dŵr (y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2015, SI 2015/1623; a Rheoliadau Amgylchedd Dŵr (y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2016, OS 2016/138.

Mae'r cynlluniau wedi cael eu halinio â'r gwaith o ddatblygu'r Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd i nodi'r meysydd lle mae buddion i'r naill a'r llall a lle gellir cydlynu'r gwaith o gyflenwi ar gyfer amgylchedd, economi a chymdeithas Cymru. Caiff y cynlluniau eu diweddaru bob chwe blynedd. Caiff y cynlluniau eu paratoi trwy ymgynghori ag amrediad eang o sefydliadau ac unigolion. Maent yn amlinellu'r modd y mae angen i Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, cwmnïau dŵr, grwpiau ffermio, diwydiant, unigolion, a llawer o rai eraill gymryd camau ar y cyd i wella dyfroedd Cymru trwy raglen o fesurau.

Mae gan bob ardal Banel Cyswllt gydag aelodau o'r sectorau allweddol sy'n darparu fforwm agored i bartneriaid cyflenwi drafod a dylanwadu ar ddatblygiad y cynlluniau a chynorthwyo â'r gwaith o'u gweithredu.

**Mae Ffigur 1 yn dangos yr Ardaloedd Basn Afon a'r Awdurdodau Lleol sydd o fewn eu dalgyloedd**



**Ffigur 2 Awdurdodau Lleol ac Ardaloedd Basn Afon**

Rhif label	Awdurdod Lleol	Rhif label	Awdurdod Lleol
1	Abertawe – Swansea	12	Powys – Powys
2	Blaenau Gwent – Blaenau Gwent	13	Rhondda Cynon Taf – Rhondda Cynon Taf
3	Bro Morgannwg – The Vale of Glamorgan	14	Sir Benfro – Pembrokeshire
4	Caerdydd – Cardiff	15	Ceredigion – Ceredigion
5	Caerffili – Caerphilly	16	Sir Ddinbych – Denbighshire
6	Casnewydd – Newport	17	Sir Fynwy – Monmouthshire
7	Castell-nedd Port Talbot – Neath Port Talbot	18	Sir Gaerfyrddin – Carmarthenshire
8	Conwy – Conwy	19	Sir y Fflint – Flintshire
9	Gwynedd – Gwynedd	20	Ynys Mon – Isle of Anglesey
10	Merthyr Tudful – Merthyr Tydfil	21	Torfaen – Torfaen
11	Pen-y-bont ar Ogwr – Bridgend	22	Wrecsam – Wrexham
23	Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro	24	Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
24	Parc Cenedlaethol Eryri		

Mae'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd yn cynnwys ymrwymïadau statudol i wneud y canlynol:

- amddiffyn yr amgylchedd dŵr rhag cael ei ddirywio;
- cyflawni amcanion yr Ardaloedd Gwarchoddedig erbyn 2021 (h.y. Cynefinoedd ac Adar, Dyfroedd Ymdrochi, Dŵr Yfed, Pysgod Dŵr Croyw, Dyfroedd Pysgod Cregyn, Nitradau, Dŵr Gwastraff Trefol);
- ceisio cyflawni Statws/Potensial Ecolegol Da a Statws Cemegol Da y Gyfarwyddeb ar gyfer yr holl ddyfroedd wyneb (a'r hyn sy'n cyfateb iddynt o ran dyfroedd daear) erbyn 2021.


### 1.3 Statws cyfredol

Yn ystod y gylchred gyntaf (2009-2015), cyflawnwyd cynnydd o 7% o gyrff dŵr yn diwallu statws cyffredinol da neu well yng Nghymru. Ar ddechrau'r ail gylchred hon, mae 37% o gyrff dŵr ar statws cyffredinol dda neu well, ac rydym yn anelu at isafswm cynnydd i gyflawni 42% erbyn 2021. Am ragor o wybodaeth am gynnydd yn ystod y gylchred gyntaf, gweler [Adroddiad ar Gynnydd Cynlluniau Basnau Afon Cymru 2009-2015](#) a ddiweddarwyd ym mis Rhagfyr 2015.

Mae'r prif resymau dros beidio â chyflawni statws da wedi'u dangos yn Ffigur 3. Mae'r diagram yn dangos y raddfa a'r rhesymau dros beidio â chyflawni statws da ar draws Cymru. Daeth y data o ddata 'Rhesymau dros Beidio â Chyflawni Da' a gasglwyd yn sgil y gwaith ymchwilio a gyflawnwyd yn ystod cylchred gyntaf y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd. Caiff y rhesymau dros beidio â chyflawni da eu dosbarthu fel a ganlyn, yn dibynnu ar lefel yr hyder yn ein hymchwiliad: tybiedig, tebygol neu cadarnhawyd. Mae hyn ar gael ar [Arsylwi Dyfroedd Cymru](#)



Ffigur 3



Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi nodi mesurau ar gyfer Awdurdodau Lleol, a gellir canfod y rhestr o fesurau ar [Arsylwi Dyfroedd Cymru](#). Mae'r [Crynodebau Rheoli Dalgylch](#) wedi cael eu datblygu sy'n cyflwyno gwybodaeth ar lefel fwy lleol. Maent hefyd wedi cael eu diweddarau ac maent ar gael ar y wefan.

## 2. Swyddogaethau awdurdodau lleol a'r amgylchedd dŵr

Mae dyletswydd ar bob corff cyhoeddus i 'roi sylw' i'r Gyfarwyddeb. Ar lefel fwy ymarferol, nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru'n berchen ar neu'n rheoli'r holl gyrff dŵr a'r tir amgylchynol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru angen i sefydliadau, cymunedau ac unigolion gymryd cyfrifoldeb a rhoi camau ar waith i wella amgylchedd dŵr Cymru.

Yn wahanol i sawl deddfwriaeth arall, nid yw'r cyfrifoldeb am gyflenwi Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr 2017 bob amser yn dod o fewn cylch gwaith adran unigol; yn hytrach mae'r cyfrifoldeb wedi'i rannu rhwng nifer o wasanaethau allweddol a gellir ei gyflenwi'n anuniongyrchol trwy wahanol ddeddfwriaeth, fel yr amlygir yn Ffigur 4 (Rhyngweithio dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr).

Mae awdurdodau lleol wedi'u hymrwymo i gyflenwi mesurau i wella'r amgylchedd dŵr dan y rhaglen o fesurau yn y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd. Bydd gweithredu'r Rhaglenni o Fesurau'n cynnwys casglu cyllid o wahanol ffynonellau ynghyd a chydlynu gweithgareddau sefydliadau sydd â diddordeb mewn defnyddio tir a dŵr. Bydd rhai mesurau'n mynnu bod awdurdodau lleol yn gweithredu trwy'r system cynllunio defnydd tir, er enghraifft, rhoi caniatâd cynllunio ynghyd ag amodau cynllunio priodol a/neu rwymedigaethau cynllunio. Gallai'r rhain alw am weithredu mesurau (e.e. systemau draenio cynaliadwy, ailgylchu dŵr llwyd ac ati) neu ddarparu cyllid.



**Ffigur 4 Rhyngweithio dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr**



Mae'r adrannau canlynol yn amlinellu prif gyfrifoldebau'r Awdurdodau Lleol a sut y gallant gael eu cyflawni mewn modd a fydd o gymorth wrth gyflawni amcanion y Gyfarwyddeb. Mae Adran 4 yn darparu gwybodaeth am ganllawiau'r Gyfarwyddeb o ran cydymffurfio ac asesu. Cynhyrchwyd y Nodyn Cyngor gyntaf yn 2013 pan sefydlwyd Cyfoeth Naturiol Cymru, ac mae bellach wedi'i ddiweddarau.

### **2.1 Y Broses Cynllunio Gwlad a Thref a Rheoli Adeiladu**

Gall datblygu effeithio er gwell ac er gwaeth ar yr amgylchedd dŵr ac ar statws cyrff dŵr. Felly, mae gan y prosesau Cynllunio a Rheoli Adeiladu le blaenllaw o ran helpu i gyflenwi gofynion y Gyfarwyddeb trwy ystyried yn ofalus ac ymgynghori, a thrwy osgoi neu leihau effeithiau andwyol unrhyw beryglon amgylcheddol ar ddefnydd tir yn awr ac yn y dyfodol.

Mae nodau strategol cenedlaethol wedi'u hamlinellu ym mhennod 13: '*Cyfyngu ar Risgiau Amgylcheddol a Llygredd a'u Rheoli*', Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9, Tachwedd 2016) <http://lyw.cymru/topics/planning/policy/ppw/?lang=cy>. Mae'r ddogfen hon yn pwysleisio rôl polisïau cynllunio lleol wrth gyfrannu at ofynion y Gyfarwyddeb trwy ddatblygu cynlluniau a pholisïau strategol clir.

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi cyhoeddi cyfres o nodiadau cyngor â'r nod o hysbysu datblygwyr, ymgynghoreion, y cyhoedd ac eraill am arlwy o brosesau. I ddysgu mwy am brosiectau seilwaith mawr arfaethedig yng Nghymru a Lloegr, gweler <https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/>

Wrth gyflenwi ar gyfer yr amgylchedd dŵr trwy gynlluniau strategol a'r prosesau rheoli datblygiadau ac adeiladau, mae'n bosibl y gall Awdurdodau Cynllunio Lleol gyflawni llawer o amcanion eu Cynlluniau Datblygu Lleol. Er enghraifft, mae gwella'r amgylchedd dŵr yn cyfrannu at yr amcanion ehangach o ran amwynderau, rheoli perygl llifogydd, hamdden, twristiaeth a bioamrywiaeth, ac yn cyfrannu hefyd at wydnwch newid hinsawdd, sy'n gallu bod yn gefn i economïau lleol.

### **Beth y gallwch chi ei wneud?**

#### **Cynllunio Strategol a'r Broses Gynllunio:**

- Sicrhau bod Cynlluniau Datblygu Lleol a'u Hasesiadau Amgylcheddol Strategol / Gwerthusiadau Cynaliadwyedd wedi'u seilio ar dystiolaeth a gwybodaeth, gan gynnwys data'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd a Chrynodebau Dalgylch. Dylai hyn helpu i dynnu sylw at y materion cysylltiedig â dŵr y mae angen mynd i'r afael â nhw trwy'r Cynllun Datblygu Lleol. Rhoddir ambell enghraifft isod:

- Sicrhau bod datblygiadau'n cael eu lleoli'n briodol. Er enghraifft, dim ond mewn ardaloedd lle mae digon o ddŵr ar gael i'w ddefnyddio y dylid pennu datblygiadau sy'n defnyddio llawer o ddŵr.
- Wrth bennu tir yn y Cynllun Datblygu Lleol, gwarchod lleoliadau sensitif o ran dŵr, megis cynefinoedd gwlypdir.
- Adfer ac amddiffyn yr amgylchedd dŵr trwy annog y defnydd o beirianeg werdd i adfer cyflwr a gweithrediad naturiol y system afonydd. Bydd hyn yn helpu i gefnogi datblygiad bioamrywiaeth, hamdden, rheoli llifogydd a thirwedd. Gweler <http://eprints.hrwallingford.co.uk/1400/> am ragor o wybodaeth am beirianeg werdd.
- Annog uwchraddau i seilwaith sy'n gysylltiedig â dŵr, er enghraifft, y cyflenwad dŵr, carthffosiaeth a thrin dŵr gwastraff, rheoli perygl llifogydd, draenio cynaliadwy a seilwaith gwyrdd. Gall gwelliannau o'r fath helpu i sicrhau bod seilwaith ar waith sy'n galluogi darparu safleoedd datblygu strategol.
  - Cynnwys technegau Dylunio Trefol Sensitif i Ddŵr (gan gynnwys Systemau Draenio Cynaliadwy) wrth ddatblygu o'r newydd. Gweler astudiaeth achos Grangetown Werddach isod. Gweler ymgyrch [ConnectRight](#) am ragor o wybodaeth.
- Annog gwella tir sydd wedi'i halogi.
- Ystyried rôl yr Ardoll Seilwaith Cymunedol neu gytundebau A106 er mwyn helpu i sicrhau canlyniadau'r Gyfarwyddeb, er enghraifft creu cynefinoedd seiliedig ar ddŵr, gwella neu greu seilwaith gwyrdd a glas.
- Ceisio barn adrannau eraill yr Awdurdod Lleol a phartneriaid er mwyn cael cyngor ynghylch sut y gall y Cynllun Datblygu Lleol sicrhau canlyniadau ehangach o ran dŵr, er enghraifft, cyfleoedd i wella a chreu cynefinoedd, annog gweithgareddau hamdden ar ddŵr, neu leihau llifogydd dŵr wyneb trwy ddatblygu a darparu seilwaith gwyrdd. Gall fod cyfleoedd hefyd i greu cysylltiadau â chynlluniau a strategaethau eraill yr Awdurdod Lleol a phartneriaid.
- Ceisio barn adrannau eraill yr Awdurdod Lleol ac ymgynghoreion arbenigol am geisiadau cynllunio unigol i sicrhau na fydd datblygiadau arfaethedig yn effeithio'n andwyol ar gyrff dŵr.
- Sicrhau bod dangosyddion priodol yn cael eu cofnodi'n gyfochr â Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy er mwyn monitro effeithiolrwydd rhai'r Gyfarwyddeb waith. Er enghraifft:
  - Nifer/canrannau'r caniatadau cynllunio a roddwyd sy'n cynnwys Systemau Draenio Cynaliadwy.
  - Arwynebedd y cynefin gwlypdir a grëwyd drwy'r broses ddatblygu.
  - Nifer y rhwystrau i bysgod a symudwyd ymaith, er enghraifft coredu ac ati.
  - Statws ecolegol y cyrff dŵr yn ardal y Cynllun Datblygu Lleol.

Bydd llawer o'r dangosyddion ecolegol eisoes yn cael eu casglu gan ecolegwyr / swyddogion bioamrywiaeth yr Awdurdod Lleol.

- Paratoi canllawiau priodol i ddatblygwyr (er enghraifft, Canllawiau Cynllunio Atodol) os oes ystyriaethau o bwys sy'n berthnasol i'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Gallai hyn fod yn gysylltiedig â chanllawiau cyfredol, er enghraifft canllawiau cydsynio cyrsiau dŵr arferol a reolir gan gydweithwyr llifogydd.
- Sicrhau ymgysylltiad cynnar â phrosiectau sy'n debygol o gael effaith ar yr amgylchedd dŵr: Er enghraifft: codi ymwybyddiaeth o'r Gyfarwyddeb o fewn timau polisi cynllunio'r Awdurdod Lleol a thimau eraill.
  - Sicrhau ymgysylltiad cynnar â phrosiectau sy'n debygol o gael effaith ar yr amgylchedd dŵr gyda: Cyfoeth Naturiol Cymru – timau cynllunio gweithredol.
  - Timau perthnasol Awdurdodau Lleol, megis Draenio, Priffyrdd, Adfywio, Cynllunio Cymunedol, Parciau, Hamdden ac Iechyd, ac ecolegwyr / swyddogion bioamrywiaeth yr Awdurdod Lleol.
  - Codi ymwybyddiaeth gyda chwmnïau dŵr.
- Cynnwys unrhyw faterion sy'n berthnasol i'r Gyfarwyddeb mewn rhestrau gwirio ar gyfer dilysu ceisiadau cynllunio. Dylai'r holl geisiadau cynllunio priodol gynnwys y gofyniad i gynnal asesiad neu sgrinio dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Dylai hyn fod yn sail ar gyfer unrhyw newidiadau i'r lleoliad neu'r dyluniad arfaethedig, er mwyn sicrhau bod modd osgoi, lliniaru neu wneud iawn am unrhyw effeithiau.

- Hyrwyddo Nodyn Cyngor Technegol 22 a'r Cod Cartrefi Cynaliadwy i ddatblygwyr a pherchnogion tai.
- Cydweithio'n gynnar gyda swyddogion arweiniol rheoli llifogydd a llygredd wrth lunio cytundebau A106 er mwyn sicrhau'r trefniadau ar gyfer cysylltiadau draenio dŵr budr a dŵr wyneb mewn datblygiadau newydd. Gall cydweithio'n gynnar helpu i sicrhau nad yw unrhyw fesurau gwanhau neu ffosydd cerrig i'r ddaear yn effeithio ar ansawdd y dŵr wyneb a'r dŵr daear nac ychwaith ar faint ohono sydd ar gael. Dylid gwneud hyn cyn llofnodi'r cytundeb A106.
- Dosbarthu ac asesu'r trefniadau ar gyfer cael gwared ar wastraff.  
<http://cyfoethnaturiol.cymru/guidance-and-advice/environmental-topics/waste-management/how-to-classify-and-assess-waste/?lang=cy>

## **Astudiaeth Achos: Grangetown Werddach, Caerdydd**

Gan ddefnyddio technegau Systemau Draenio Cynaliadwy, bydd y cynllun yn dal, glanhau a dargyfeirio dŵr glaw yn uniongyrchol i Afon Taf yn lle pwmpio'r dŵr dros wyth milltir trwy Fro Morgannwg i'r môr. Bydd hyn yn lleihau'n sylweddol yr ôl troed carbon a'r costau cysylltiedig â phwmpio'r dŵr trwy'r rhwydwaith presennol.

Mae'r technegau arloesol yn cynnwys gosod gerddi glaw a manau plannu ar ymyl palmentydd. Unwaith y rhoddir yr ardaloedd hyn ar waith, byddant nid yn unig yn helpu i wella draenio lleol, ond byddant hefyd yn gwella bioamrywiaeth a bywyd gwylt lleol. Byddant yn darparu gwelliannau pwysig i ansawdd dŵr yn Afon Taf hefyd. Bydd y cynllun hefyd yn sefydlu 135 o goed newydd a 1,600m<sup>2</sup> o ofod gwyrdd ychwanegol. Bydd y rhain yn darparu cartrefi newydd ar gyfer bywyd gwylt ac yn cynnig cyfleoedd newydd i bobl fwynhau cerdded, beicio a gweithgareddau hamdden eraill yn agos at eu cartrefi a'u gwaith. Mae toreh o ymchwil sy'n nodi bod llesiant corfforol a meddyliol pobl hefyd yn gwella wrth fod yn agosach at ofod gwyrdd. Ar yr un pryd, bydd mwy o lesni a phlannu coed hefyd yn golygu y dylai sŵn a llygryddion gael eu lliniaru a'u hamsugno'n well, a bydd yr aer yn lanach hefyd.

Ers llunio'r prosiect, mae cynnwys y gymuned wedi bod wrth galon y cynllun, gyda digwyddiadau galw heibio a chymorthfeydd stryd i egluro'r prosiect a rhoi cyfleoedd i wneud sylwadau am ddyluniadau posibl, trefn ffyrdd newydd arfaethedig a threfniadau parcio. Dechreuodd y gwaith adeiladu ym mis Ionawr 2017 a bydd yn cael ei gwblhau ym mis Tachwedd 2017.

Mae fideo ar gael sy'n egluro'r prosiect, beth sy'n digwydd i ddŵr glaw yn Grangetown ar hyn o bryd, a'r buddion y bydd y prosiect yn eu darparu. Am ragor y wybodaeth, cysylltwch â [Martyn.Evans@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:Martyn.Evans@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk) ewch i wefan [Grangetown Werddach](#) neu dilynwch y prosiect ar Twitter (@grangewerddach) gan ddefnyddio #GrangetownWerddach



## 2.2 Rheoli Perygl Llifogydd

Ar ôl rhoi Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 ar waith, mae cynghorau yng Nghymru, a hwythau'n Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol, yn gyfrifol am reoli'r perygl llifogydd o ddŵr wyneb, dŵr daear a chyrsgiau dŵr arferol. O dan y Ddeddf Draenio Tir, mae Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol hefyd yn arwain y gwaith o roi caniatâd a gorfodi gyda golwg ar gyrsiau dŵr arferol.

Mae'r swyddogaethau hyn yn cael eu cyflenwi gan fwyaf gan adrannau draenio tir a phriffyrdd. Yn aml, gall yr effeithiau ar yr amgylchedd dŵr sy'n deillio o weithgareddau rheoli tir, priffyrdd a rheoli perygl llifogydd effeithio ar brosesau ffisegol, ecolegol a chemegol.

Nid yw'r effeithiau hyn yn gyfyngedig i amgylcheddau dŵr croyw yn unig; byddant yn effeithio ar ddyfroedd arfordirol a'r amgylchedd morol hefyd. Er enghraifft:

- Newidiadau ffisegol i'r amgylchedd dŵr er mwyn rheoli perygl llifogydd neu at ddibenion adennill tir, gan gynnwys amddiffynfeydd arfordirol.
- Gall newidiadau i batrymau draenio, megis cyfeintiau uwch o ddŵr ffo, a newidiadau i weithrediad naturiol gorlifdiroedd gael effaith andwyol hefyd ar yr amgylchedd dŵr.
- Llygredd gwasgaredig a dŵr ffo oddi ar ffyrdd: gall dŵr ffo gludo cymysgedd o sylweddau llygrol, megis olewau, metelau gwenwynig, plaladdwyr, halwynau a gwaddodion sy'n gallu effeithio'n ddifrifol ar gyrff dŵr wyneb a dŵr daear ac ar ansawdd dŵr ymdrochi.
- Bydd priffyrdd sydd wedi cael eu dylunio'n wael a defnydd gormodol o sianeli a chwlfperi artifisial hefyd yn effeithio ar forffoleg ac ecoleg cyrsiau dŵr.
- Gall gollwng gormod o ddŵr wyneb o ddatblygiadau i gyrsiau dŵr effeithio ar ansawdd y dŵr ac, yn y pen draw, olygu bod mwy o berygl llifogydd i lawr yr afon.
- Gwaith dros dro mewn, ar neu o gwmpas cyrsiau dŵr arferol.

Ychwanegwch astudiaeth achos Bro Morgannwg ar gyrsiau dŵr arferol – Add VoG case study on ordinary watercourses

### **Beth y gallwch chi ei wneud i leihau'r effeithiau ar yr amgylchedd dŵr a chyfrannu at amcanion y Gyfarwyddeb i wella'r amgylchedd dŵr?**

- Sicrhau bod gweithiau megis cwlfperi, pwyntiau croesi, gwaith atgyweirio glannau o ran hydromorffoleg a draenio tir yn cael eu gwirio a'u hasesu i ddiwallu gofynion y Gyfarwyddeb.
- Dylai cydsyniad cyrsiau dŵr arferol gynnwys sgrinio dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr er mwyn ystyried gofynion ac amcanion y Gyfarwyddeb.
- Ystyried mabwysiadu'r is-ddeddfau draenio tir diweddar a fydd yn sicrhau elfen o reolaeth dros weithiau na roddwyd cydsyniad ar eu cyfer a gweithgareddau eraill sy'n debygol o gynyddu perygl llifogydd ac effaith ar gyrff dŵr fel ei gilydd.
- Asesu a sylwi ar effaith datblygiad arfaethedig ar amgylcheddau dŵr fel rhan o ymateb eich ymgynghoriad cynllunio i lywio penderfyniadau.
- Dylai gwaith amddiffyn rhag llifogydd ddiwallu gofynion y Gyfarwyddeb ac ni ddylai beri i unrhyw gyrff dŵr waethgu o ran eu statws cyfredol neu atal gwelliannau rhag cael eu gwireddu yn y dyfodol.
- Ystyried mesurau lliniaru wrth ymgymryd â gwaith amddiffyn rhag llifogydd mewn Cyrff Dŵr sydd wedi'u Haddasu'n Sylweddol. I wneud yn iawn am y cynnydd mewn amrywiaeth forffolegol sianel, gweler yr enghraifft sy'n dangos [adfer a sefydlogi lefelau gwely afon a or-ddyfnhawyd, Afon Ogwen a Nant Ffrancon, Gwynedd](#)

Mae'r [Llawlyfr Adfer Afonydd](#) yn cynnwys mwy o enghreifftiau ar ffurf gwelliannau amgylcheddol i helpu rheolwyr afonydd i nodi technegau adfer posibl i'w defnyddio wrth adfer afonydd a'u rheoli'n gynaliadwy. Mae bellach yn cynnwys 64 enghraifft achos y gellir eu lawrlwytho fel dogfennau PDF mewn 35 safle ledled y DU.

- Annog y gwaith o agor cyrsiau dŵr wedi'u cwlfperi a symud strwythurau artifisial ymaith lle maent o fewn ffiniau'r safleoedd datblygu newydd.
- Defnyddio peirianeg werdd lle bo'n bosibl – gweler <http://eprints.hrwallingford.co.uk/1400/> am enghreifftiau o beirianeg werdd.

- Gellir addasu gweithiau arfaethedig i sicrhau eu bod o fudd i'r amgylchedd dŵr. Gall cysylltu â'ch adran bioamrywiaeth a sefydliadau'r trydydd sector ddod â mwy o gymorth a chyfleoedd ar gyfer adnoddau a chyllid.
- Sicrhau bod asesiad yn cael ei gynnal dan y Gyfarwyddeb cyn gynted â phosibl yn y broses i lywio penderfyniadau a chyn dechrau ar unrhyw waith mawr. Bydd eich swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru lleol yn gallu'ch cynghori chi.
- Bydd ymgysylltu'n gynnar â Cyfoeth Naturiol Cymru, cynllunwyr a chyfranogwyr allweddol eraill er mwyn nodi problemau posibl a'u datrys ac er mwyn nodi cyfleoedd sy'n sicrhau manteision ehangach yn hollbwysig i gynlluniau llwyddiannus.
- Hyrwyddo'r safonau systemau draenio cynaliadwy anstatudol i helpu i gyflenwi manteision hirdymor wrth fynd i'r afael â llygredd gwasgaredig a pherygl llifogydd dŵr wyneb, a manteision ecosystemig.
- Ceisio cyfleoedd ar gyfer ôl-ffitio datblygiadau sydd ohoni â systemau draenio cynaliadwy a dyluniad trefol sensitif i ddŵr. Gall y rhain ddod â manteision i gymunedau, megis lefelau is o lifogydd dŵr wyneb, gwell effeithlonrwydd dŵr mewn cartrefi a gwelliannau i fannau agored lleol.
- Gellir canfod rhagor o wybodaeth yn [CIRIA](#).





### **Astudiaeth Achos: Rheoleiddio Cyrsiâu Dŵr Cyffredin**

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn defnyddio dull gweithredol i sicrhau bod gweithgareddau y mae angen caniatâd ar eu cyfer ar gwrs dŵr yn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Gofynnir i nodyn cyngor safonol gael ei atodi i hysbysiadau penderfynu ynglŷn â cheisiadau cynllunio lle yr ymgynghorir â'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol yn uniongyrchol ynghylch safleoedd a leolir yn agos i gyrsiâu dŵr a gweithiau mae'n bosibl y byddant yn effeithio ar ansawdd dŵr. Mae hyn i godi ymwybyddiaeth o ofynion posibl Caniatadau Draenio Tir ar gyfer gwaith mewn cwrs dŵr ac o'i amgylch.

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn siarad yn uniongyrchol â datblygwyr yn ystod camau cynnar ceisiadau cynllunio i drafod gofynion strategaethau draenio dŵr wyneb a Chaniatadau Draenio Dŵr, ynghyd â'r angen am Asesiadau Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn rhan o'r broses o roi caniatâd. Enghraifft o hyn yw Fferm Darren, y Bont Faen, lle mae Cyngor Bro Morgannwg wedi bod yn cyfrannu ers cam cynnar yn y dyluniad dŵr wyneb, yn rhoi cyngor ynghylch gofynion y strategaeth draenio dŵr wyneb ac Asesiad Cwrs Dŵr Cyffredin / Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar gyfer ffordd gyswllt newydd a fydd yn croesi'r safle.

Bydd Cyngor Bro Morgannwg hefyd yn rhoi gwybodaeth ymlaen llaw i ymgeiswyr ar ei wefan; mae hyn yn cynnwys yr angen posibl i ymgeiswyr gwblhau asesiad i ddangos cydymffurfiaeth.

Asesiad Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr: Bydd yn ofynnol cynnal Asesiad Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar gyfer rhai gweithgareddau y mae angen caniatâd ar eu cyfer. Diben y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (Cyfarwyddeb 2000/60/EC) yw sefydlu fframwaith ar gyfer amddiffyn dyfroedd wyneb (gan gynnwys afonydd, llynnoedd, dyfroedd aberol a dyfroedd arfordirol) a dyfroedd daear trwy gydol tiriogaeth y UE. Bydd trafodaethau cyn ymgeisio'n nodi neu'n diystyried yr angen am asesiad o'r fath. Nodwch, os oes angen Asesiad Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, ei bod yn rhaid ei gwblhau cyn cyflwyno cais am ganiatâd. Os ystyrir bod angen Asesiad Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ac na chyflwynir un, gwrthodir caniatâd.



### 2.3 Priffyrdd

- Sicrhau bod prosiectau trafndiaeth a ffyrdd newydd yn cael eu dylunio a'u hasesu ar gyfer y Gyfarwyddeb i leihau gymaint ag y bo modd unrhyw effaith llygru yn sgil ddŵr ffo ac ar leihau perygl llifogydd. Gall defnyddio dulliau asesu amgylcheddol (sy'n cynnwys ystyried yr amgylchedd dŵr) helpu gyda'r gwaith hwn. Yn ddefnyddol, dylai'r dŵr sy'n draenio oddi ar y ffyrdd ddraenio i ddyfroedd wyneb, ac nid i'r carthffosydd.
- Nodi a monitro ymhle y mae gwaith ffordd newydd yn debygol o fod o fudd. Er enghraifft, bydd creu cronbyllau neu ffosydd cerrig o fudd i ansawdd y dŵr drwy ei hidlo a byddant yn creu cyfleoedd i fywyd gwylt.
- Ymgymryd ag asesiadau effaith amgylcheddol ac asesiad y Gyfarwyddeb i nodi risgiau llygredd neu lifogydd posibl a rhoi mesurau ar waith i liniaru'r risgiau hyn trwy ddylunio system ddraenio ddigonol.
- Rheoli gwaith taenu halen a graean yn y gaeaf i leihau dŵr ffo llygrol a'i effeithiau ar yr amgylchedd dŵr.
- Storio sbwriel dail mewn cilfachau ar y ffordd.
- Gweithio'n agos gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Gwasanaeth Tân ac Achub i reoli perygl llygredd yn sgil gorlifau damweiniol o danwydd, cemegion neu ddeunyddiau llygrol eraill ar briffyrdd, neu ddigwyddiadau.
- Storio deunyddiau mewn storffeydd priffyrdd awdurdogau lleol i ochel rhag llygryddion yn mynd i mewn i ddraeniau dŵr wyneb.
- Dilyn arferion da wrth ddefnyddio plaladdwyr a chwynladdwyr ar wrth ymylon ffyrdd er mwyn osgoi effeithio ar ansawdd y dŵr ac ar ecoleg cyrff dŵr.
- Dylai cronbyllau gael eu gosod ar gyfer pob system draenio dŵr wyneb.
- Hyfforddi staff i ddefnyddio pecynnau rheoli gollyngiadau ar briffyrdd ac yn storffeydd priffyrdd.

**Astudiaeth Achos: Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, a Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i atal ansawdd afon rhag dirywio.**

**Pwnc**

Ym mis Rhagfyr 2015, gwnaeth llifoedd uchel yn Afon Iwrch yn nalgylch Afon Conwy sgwrio'r arglawdd ar brif gefnffordd yr A5, ac roedd angen gwaith brys er mwyn diogelu'r ffordd a chadw cysylltiadau trafnidiaeth ar agor.

**Cefndir**

Mae Afon Iwrch yn isafon i Afon Conwy, sy'n bwysig ar gyfer silio eogiaid a brithyllod y môr. Roedd arolygon monitro Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi bod y niferoedd o bysgod yn isel, ac yn nodi bod cyrraedd statws da yn y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr gyntaf, Cynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru 2009, yn fater o flaenoriaeth. Bu i nifer o ymweliadau fferm gan Cyfoeth Naturiol Cymru a chydweithio â thirfeddianwyr lleol ac Ymddiriedolaeth Afonydd Clwyd, Conwy a Gwynedd i wella'r cynefin silio yn yr afon arwain at wella statws yr afon ar gyfer pysgod, gan symud o wael i dda erbyn 2015.

Mae Afon Iwrch yn "gwrs dŵr cyffredin". Mae hyn yn golygu mai Cyngor Bwrdeistref Sirol Cyngor yw'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol ers 2012, pan ddaeth y cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau am ganiatâd o dan Adran 23 Deddf Draenio Tir 1991 yn gyfrifoldeb i Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol.

**Datrysiad**

Am fod y rhain yn weithiau brys, risg uchel, gwnaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Ionawr 2016. Cynhaliwyd cyfarfod safle i drafod yr opsiynau posibl ag Ymgynghoriaeth Gwynedd, y dylunydd a'r rheolwr prosiect a oedd yn gweithio ar ran Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru.

Yr opsiwn cychwynnol a gynigiwyd oedd dargyfeirio sianel yr afon trwy far graean ar yr ystum ychydig i fyny'r afon o'r bont, a fyddai wedi newid sianel yr afon dros dro ac wedi amddiffyn y bont. Fodd bynnag, byddai hefyd wedi sychu ardal o gynefin lle mae pysgod yn silio, a fyddai wedi bod yn drychinebus ar gyfer wyau pysgod yr adeg honno o'r flwyddyn.

Trwy drafodaeth ar y safle ac arfarniad o opsiynau, cytunwyd ar ddull dros dro o weithio, gan amddiffyn y bont rhag erydu pellach yn y tymor byr heb sychu'r sianel silio. Roedd hyn yn caniatáu rhagor o amser i lunio cynllun manwl, gyda pholion a chynalyddion pont newydd, a fyddai'n cael eu gosod yn yr haf pan oedd llifoedd yn is a'r wyau yn y graean wedi deor.

Bu i hyn hefyd ddangos yr angen i feddwl am ddarn hwy o afon wrth ystyried gweithiau yn yr afon. Gallai'r opsiwn cychwynnol, heb unrhyw waith i'r sianel i fyny'r afon, fod wedi arwain at yr afon yn dolennu'n ôl tuag at biler y bont a oedd yn agored yn ystod y llifogydd nesaf.

### **Outcome**

Bu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sylweddoli bod hon yn rhan bwysig o'r afon ac, am fod y gweithrediad yn risg uchel, gwnaethant gysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru. Trwy gysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru cyn dechrau gwaith, roeddem yn gallu gweithio gyda'n gilydd er mwyn sicrhau bod y bont yn cael ei hamddiffyn heb effeithio ar gynefin gwerthfawr ar gyfer silio pysgod yn Afon Iwrch, ac o ganlyniad yn atal dirywiad o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

Ffotograff o'r bont ar yr A5 yn dangos erydiad gyfagos ag Afon Iwrch ym mis Ionawr 2016



Gwaith i roi datrysiad dros dro ar waith, gan gadw'r cynefin silio'n wlyb ac yn atal dirywiad



Ffotograffau gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

## 2.4 Iechyd yr Amgylchedd a Rheoli Llygredd

Mae gan Awdurdodau Lleol ran fawr i'w chwarae wrth hyrwyddo buddion i'r amgylchedd dŵr trwy swyddogaethau rheoli iechyd yr amgylchedd a llygredd.

### Beth y gallwch chi ei wneud?

- Ymgysylltu â busnesau i'w hannog i newid eu hymddygiad er mwyn lleihau perygl llygredd. Er enghraifft: cyngori sefydliadau arlwyio i beidio â gwaredu gwastraff bwyd yn uniongyrchol i ddraeniau dŵr wyneb, a'u hannog i storio olewau a sylweddau peryglus mewn modd diogel.
- Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o gam-gysylltu draeniau ac effeithlonrwydd dŵr. Mae cam-gysylltu'n cynnwys dŵr budr yn mynd i'r draeniau sy'n cael ei ollwng i gyrsiau dŵr ac yn eu llygru. Mae hefyd yn cynnwys dŵr glaw ffo sy'n mynd i'r carthffosydd er bod dulliau draenio cynaliadwy gwell yn bodoli neu gellir creu dulliau draenio cynaliadwy o'r fath. Gweler ymgyrch [ConnectRight](#) am ragor o wybodaeth.
- Mynd i'r afael â'r goblygiadau iechyd sy'n gysylltiedig â rheolaeth wael o systemau trin carthion preifat (tanciau septig a cheubyllau).
- Darparu data a gwybodaeth, er enghraifft, wrth ddyfroedd ymdrochi, a defnyddio dyletswyddau cynllunio a niwsans statudol i atal gweithgarwch heb ganiatâd sy'n gallu cyfrannu at lygru dŵr, er enghraifft, golchi ceir. Codi ymwybyddiaeth o'r angen i waredu sbwriel a gwastraff cŵn yn gywir.
- Atal a mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon a gollwng sbwriel mewn cyrsiau dŵr.
- Mae gofyn i Awdurdodau Lleol, a hwythau'n rheolwyr traethau, godi arwyddion sy'n crynhoi proffil y dŵr ymdrochi a'i ddsbarthiad.
- Mae'r Awdurdodau Lleol yn gyfrifol am ymdrin â'r rhan fwyaf o fathau o dipio anghyfreithlon graddfa fach ar dir sy'n eiddo cyhoeddus, gan gynnwys ffyrdd a chilfannau.

## 2.5 Ystadau sy'n cynnwys manau gwyrdd ac adeiladau

Mae awdurdodau lleol yn berchen ar dir ac eiddo sylweddol ac felly mae ganddynt ran bwysig o ran gwarchod a gwella'r amgylchedd dŵr. Isod, ceir ambell enghraifft o'r camau y gall timau sy'n gyfrifol am dirddaliadau ac adeiladau Awdurdodau Lleol eu cymryd. Mae angen i dimau gweithredol Awdurdodau Lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru gydweithio i drafod a nodi cyfleoedd posibl a sut y byddai'n bosibl gwireddu'r rhain.

### Beth y gallwch chi wneud?

#### Tir a Mannau Gwyrdd

- Dylunio a chynnal cynlluniau draenio ar safleoedd a thir Awdurdodau Lleol er mwyn darparu dulliau gwerthfawr o reoli llifogydd, sydd o fudd i ansawdd dŵr, ecoleg ac amwynder.
- Rheoli patrymau torri gwair: trwy dorri'n llai aml, gellir lleihau'r gyfradd ddŵr wyneb ffo, ac felly, bydd llai o waddod yn cael ei lwytho iddo a llai o berygl i sylweddau llygrol fynd i'r cyrsiau dŵr. Mae ardaloedd o wair talach yn gallu dal dŵr a'i hidlo'n well, ac mae parthau clustogi wrth ymyl cyrsiau dŵr hefyd yn help i hidlo llygryddion posibl gan greu cynefinoedd a bywyd gwyllt ar fin y glannau. .
- Defnyddio coed a llwyni fel lleiniau clustogi sy'n gallu cynyddu cyfraddau hidlo dŵr glaw i'r ddaear yn sylweddol. Hefyd, o'u plannu fel lleiniau cysgodi, gall coed gael effeithiau mawr ar oerfel gwynt ar dai digysgod, yn ogystal â gwella bioamrywiaeth a chysylltedd, ansawdd yr aer ac amwynder gweledol a rhoi cysgod.
- Rheoli rhywogaethau estron goresgynnol gan gynnwys Jac y Neidiwr, Clymog Japan, Dail-ceiniog Arnofiol, ac Efwr Enfawr. Mae'r rhain yn gallu amharu'n sylweddol ar ecoleg cyrsiau dŵr drwy atal twf fflora brodorol, difrodi'r cynefin ar gyfer pryfed a physgod, rhwystro llif y dŵr a chynyddu perygl llifogydd. Tirfeddianwyr unigol, gan gynnwys Awdurdodau Lleol, sy'n gyfrifol am ymdrin â chwyn goresgynnol. Mae ymdrechion rheoledig i helpu i atal rhywogaethau estron goresgynnol rhag lledaenu yn arbennig o lwyddiannus os defnyddir dull cydlynol ar ddalgylch cyfan. Sicrhau bod gan yr Awdurdod Lleol gynllun bioddiogelwch



ar gyfer ei staff a'i swyddogaethau ei hun ac ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau a gynhelir ar dir yr Awdurdod Lleol. Mae rhagor o wybodaeth am dechnegau rheoli a chadw dan reolaeth ar gael ar wefan Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Genedlaethol Prydain Fawr –

<https://secure.fera.defra.gov.uk/nonnativespecies/checkcleandry/index.cfm> – ac mewn dogfennau megis cyhoeddiad Asiantaeth yr Amgylchedd 'Rheoli planhigion goresgynnol, estron mewn neu ar bwys dŵr croyw. <http://www.environment-agency.gov.uk/homeandleisure/wildlife/31350.aspx>

- Defnyddio plaladdwyr a chwynladdwyr yn briodol: gall methu â rheoli plaladdwyr a chwynladdwyr yn dda effeithio'n ddifrifol ar ansawdd dŵr ac ar ecoleg corff dŵr. Mae hyfforddi pobl sy'n defnyddio chwistrellau a mabwysiadu arferion da, megis y rheini a argymhellir yn nodyn briffio'r Fforwm Amwynder ar blaladdwyr ac amddiffyn y dŵr ar gyfer gweithredwyr chwistrellau, yn helpu i leihau'r effeithiau posibl ar yr amgylchedd dŵr.
- Sicrhau bod tir a daliadau dan berchnogaeth y Cyngor yn bodloni gofynion rheoleiddiol cyfreithiol ac yn hyrwyddo cydymffurfiaeth â Chod Ymarfer Amaethyddol Da ar gyfer Diogelu Dŵr, Pridd ac Aer Llywodraeth Cymru ble bynnag y bo'n bosibl.

## Adeiladau

- Rheoli adeiladau er mwyn osgoi llygredd sy'n codi yn sgil cam-gysylltu draeniau, gollyngiadau, storio cemegau, atal sylweddau llygrol rhag mynd i ddraeniau dŵr wyneb a golchi cerbydau. Dargyfeirio dŵr glaw o garthffosydd i systemau draenio cynaliadwy eraill megis ffosydd cerrig neu bantiau.
- Codi ymwybyddiaeth o gam-gysylltu, llygru dŵr ac effeithlonrwydd dŵr ymhlith tenantiaid yr Awdurdod Lleol (tenantiaid domestig a busnes). Gall y rhain leihau costau'n sylweddol drwy dorri taliadau am garthffosydd ac, wrth beidio â chael dŵr glaw'n draenio i garthffosydd, bydd modd rhoi ad-daliad dŵr glaw ar filiau. Hyrwyddo arferion da trwy gytundebau tenantiaeth.
- Sicrhau bod elifiant toiledau cyhoeddus yn cael ei drin a'i waredu'n ddigonol.
- Sicrhau bod systemau trin carthion preifat yn cael eu cadw mewn cyflwr gweithio da. Mae gweithfeydd trin carthion cryno a thanciau septig yn llygru'r amgylchedd os nad ydynt yn cael eu cynnal yn gywir, gan gyfrannu at ansawdd dŵr gwael, a gallant ddifwyno cyflenwadau dŵr preifat trwy ffynhonnau, tyllau turio a tharddellau. Yn dibynnu ar sensitifrwydd yr amgylchedd lleol, rhaid i system trin carthion breifat naill ai fod wedi'i chofrestru fel eithriad neu wedi'i ganiatáu o dan Reoliadau'r Amgylchedd 2016. Ceir gwybodaeth bellach yma:  
<https://cyfoethnaturiol.cymru/permits-and-permissions/water-discharges/register-your-septic-tank-package-sewage-treatment-plant/?lang=cy>  
<https://cyfoethnaturiol.cymru/permits-and-permissions/water-discharges/register-your-septic-tank-package-sewage-treatment-plant/?lang=cy>
- Rhoi nodweddion cynaliadwy ar waith mewn adeiladau, megis cronni dŵr glaw, system wresogi sy'n llosgi coed a chynlluniau rheoli gwastraff.
- Rhoi camau effeithlonrwydd dŵr ar waith, e.e. wrth reoli adeiladau a mannau gwyrdd, a hefyd annog arferion effeithlonrwydd dŵr ymhlith preswylwyr a busnesau lleol. Gall hyn ostwng taliadau dŵr, a, lle bydd eiddo ar fesurydd, bydd yn gostwng y tâl am garthffosydd hefyd. Yn ogystal, mae Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni'n rhoi cyngor a gwybodaeth i ddefnyddwyr dŵr am gamau effeithlonrwydd.
- Sicrhau bod arolygiadau o adeiladau newydd ac estyniadau neu adnewyddiadau o dan y Rheoliadau Adeiladu'n cynnwys gwiriadau o gysylltiadau draenio (o dan Adran G y Rheoliadau Adeiladu) i nodi a chywiro unrhyw broblemau cam-gysylltu. Mae hyn yn cynnwys sicrhau nad yw systemau draenio dŵr llwyd wedi'u cysylltu â systemau draenio dŵr wyneb, ond mae hefyd yn cynnwys sicrhau nad yw dŵr glaw sy'n draenio o doeon a llwybrau'n cael ei waredu mewn carthffosydd os oes ffosydd cerrig neu opsiynau draenio dŵr wyneb ar gael.
- Hyrwyddo defnydd effeithlon o ddŵr mewn adeiladau newydd a rhai sydd wedi'u hadnewyddu. Cynnwys casglyddion dŵr glaw fel arfer da.

## 2.6 Partneriaethau ac ymwybyddiaeth

Mae Awdurdodau Lleol yn chwarae rhan bwysig fel arweinwyr cymunedol wrth addysgu, cynghori ac integreiddio cymunedau ac, ochr yn ochr â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n

bartneriaid iddynt, maent yn chwarae rhan bwysig o ran sicrhau bod cymunedau'n wytnach; gall hyn hefyd helpu i gyflenwi amcanion y Gyfarwyddeb. Mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'u cynllun lles yn rhoi cyfle i ystyried ble a sut y gallant gefnogi'r gwaith o gyflenwi canlyniadau'r Gyfarwyddeb.

### **Beth y gallwch chi ei wneud?**

- **Gwelliannau sy'n cael eu tywys gan y gymuned**, gan gynnwys gwella mynediad, gwella cynefinoedd, codi sbwriel, gweithgareddau hamdden ac addysg; gellir gwneud hyn yn aml drwy weithio gyda phartneriaid megis, cwmnïau dŵr, cyrff y sector gwirfoddol, grwpiau cymunedol a Cyfoeth Naturiol Cymru.
- **Mynd i'r afael â cham-gysylltu** – gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, cwmnïau dŵr, grwpiau cymunedol, busnesau plymio ac adeiladu i godi ymwybyddiaeth o gam-gysylltu draeniau ac i fynd i'r afael â'r broblem, er enghraifft lle bydd dŵr budr o beiriannau golchi, ystafelloedd ymolchi ac ati'n cael ei gysylltu'n anghywir â draeniau dŵr wyneb yn hytrach nag â'r garthffos dŵr budr. Yn yr un modd, dylai dŵr redeg oddi ar doeon i ffosydd cerrig neu i ddraeniau dŵr wyneb.
- **Gweithio gyda busnesau** i leihau perygl llygredd dŵr. Annog busnesau i sicrhau bod cysylltiadau draenio eu hadeiladau a'u hasedau (e.e. iardiau cerbydau) yn gywir a bod ganddynt weithdrefnau i storio cemegau a sylweddau a allai lygru. Gall llygru ddigwydd am fod gollyngiadau'n cael eu rheoli'n wael ac am fod olewau a chemegion yn cael eu storio'n wael. Hefyd, gall tywallt glanedyddion ac olewau i ddraeniau dŵr wyneb achosi digwyddiadau o lygredd yn ogystal â dŵr budr yn mynd i'r draen ar ôl golchi cerbyd. Dylai dŵr glaw glân o doeon ac ati gael ei gronni a'i storio mewn cronbyllau ac ati, neu gellid ei ddefnyddio i dynnu'r dŵr mewn toiled ac ati.
- **Hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd** trwy ymgyrchoedd, megis Ymgyrch y Pysgodyn Melyn, i godi ymwybyddiaeth o lygredd yn mynd i ddraeniau dŵr wyneb, sydd yn y pen draw'n mynd i'r nentydd a'r afonydd lleol.
- **Gweithio gydag eraill**, megis Ymddiriedolaethau'r GIG a'r Gwasanaethau Tân ac Achub er mwyn helpu i gyblethu materion sy'n ymwneud â'r amgylchedd dŵr â'u gwaith. Er enghraifft:
  - Cyblethu materion sy'n ymwneud â'r amgylchedd dŵr â'r gwasanaethau hynny y bydd trydydd partion yn eu darparu ar gyfer Awdurdodau Lleol, megis rheoli bioamrywiaeth a manau gwyrdd a gyflenwir gan gyrff gwirfoddol a chontractwyr o'r sector preifat a chymunedau lleol.
  - Gweithio gydag eraill i godi ymwybyddiaeth o werth economaidd lleol amgylchedd dŵr o safon dda, adnoddau dŵr a phwysigrwydd seilwaith "glaswyrdd" wrth danategu twf economaidd. Gweler astudiaeth achos Cwm Tawe Isaf.
  - Cofnodi'r holl fesurau sy'n helpu i wella'r amgylchedd dŵr ac adrodd am y rhain i Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn eu cynnwys yn yr adroddiad cynnydd i Ewrop.

### **Astudiaeth Achos: Ailgysylltu Seilwaith Gwyrdd a Glas**

Roedd Cwm Tawe Isaf, yng ngorlifdir Afon Tawe, yn ardal o weithgarwch diwydiannol helaeth rhwng y ddeunawfed ganrif a'r ugeinfed ganrif. Heddiw, mae wedi'i ailddatblygu a bellach mae'n gartref i ystad manwerthu a masnachol mawr o bwysigrwydd rhanbarthol i economi Cymru.

Lleolwyd cynllun rheoli perygl llifogydd Cwm Tawe Isaf dwy filltir i'r gogledd o ganol dinas Abertawe, ac mae'n lleihau'r perygl llifogydd i oddeutu 300 o fusnesau a chartrefi. A chanddi hyd dros 4km, mae capasiti Afon Tawe wedi cael ei gynyddu trwy greu mwy o le i ddŵr lifo, gan dynnu cyfyngiadau ar lifau a chodi mannau isel ar hyd glannau'r afon. Mae'r argloddiau llifogydd wedi cael eu gosod yn ôl o'r afon i greu cynefin gwlyptir naturiol chwe hectar (gweler y llun). Mae amddiffyn ac adfer cynefinoedd bywyd gwyllt yn fater pwysig ar gyfer y Gyfarwyddeb. Roedd targedau creu penodol hefyd, gan gynnwys ardaloedd newydd o laswelltir gwlyb, dolydd blodau gwyllt a choetir gwlyb.

Datblygwyd y gwaith trwy bartneriaeth gydweithredol â Dinas a Sir Abertawe, ac fe'i cwblhawyd yn 2014. Ac yntau'n dirfeddiannwr a rhanddeiliad pennaf, gwnaeth yr awdurdod lleol helpu i sicrhau y byddai'r cynllun nid yn unig yn cyflenwi'r amcanion amddiffyn rhag llifogydd ond y byddai hefyd yn gwella'r amgylchedd a'r dirwedd.

Mae creu gwlyptir naturiol yn darparu'r gofynion amgylcheddol angenrheidiol i wella statws ecolegol Afon Tawe. Mae hyn yn dangos sut y gall y Gyfarwyddeb gyflenwi atebion integredig i wella'r amgylchedd ar gyfer pobl, economi a bywyd gwyllt Cymru. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â [Mark Davies](#)



Gwlyptir cynefin, cydnabyddiaeth am y ffotograff Mark Davies



### 3. Arferion Da

Yn ogystal ag arferion da o ran Awdurdodau Lleol yn integreiddio materion sy'n berthnasol i'r Gyfarwyddeb â'u gwahanol swyddogaethau. Isod ceir rhai enghreifftiau o'r camau y mae Awdurdodau Lleol wedi'u cymryd:

- √ Sefydlu aelod arweiniol o'r cabinet neu uwch-reolwr (e.e. o'r tîm draenio, polisi cynllunio neu strategaeth amgylcheddol) i fod yn gyffredinol gyfrifol am sicrhau bod yr amgylchedd dŵr a materion sy'n ymwneud â'r Gyfarwyddeb yn cael eu hintegreiddio'n effeithiol â gwahanol swyddogaethau'r awdurdod lleol a bod y cynnydd yn cael ei fonitro.
- √ Sefydlu grŵp bach o swyddogion yn yr Awdurdod Lleol, gyda chynrychiolwyr o'r swyddogaethau perthnasol. Dylai'r grŵp hwn nodi camau allweddol i'w cwblhau a hyrwyddo gwaith traws-swyddogaethol yng nghyswllt materion y Gyfarwyddeb a'r amgylchedd dŵr.
- √ Defnyddio rhestr wirio seml i asesu a monitro sut mae materion sy'n berthnasol i'r Gyfarwyddeb yn cael eu hintegreiddio â gwaith yr Awdurdod.
- √ Meithrin perthnasau gweithio da â phartneriaid allanol, er enghraifft trwy drefnu sesiynau hyfforddi i swyddogion ar bynciau megis y Gyfarwyddeb, adfer afon a rolau'r Systemau Draenio Cynaliadwy newydd, ac ynglŷn â chyflenwi'r camau gweithredu.

### 4. Canllawiau

Mae'n rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Gyfarwyddeb a [rhwymedigaethau](#) eraill; wrth ymgymryd â'i weithgareddau gweithredol ei hun, rhoi cydsyniadau neu drwyddedau ar gyfer gweithgareddau, neu wrth gynghori penderfynwyr eraill. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyhoeddi canllawiau diweddaedig mewn perthynas â chydymffurfiaeth â'r Gyfarwyddeb a diffyg dirywiad. Mae'r rhain yn egluro'r hyn a gaiff ei ystyried yn ddirywiad (yn sgil cyfraith achosion ddiweddar), y gellir ei ddefnyddio wrth asesu gweithgareddau neu brosiectau newydd, neu ar gyfer nodi dirywiad ar raddfa elfen/corff dŵr rhwng cylchredau. Mae'r canllawiau hefyd yn amlinellu'r broses ar gyfer mynd i'r afael â dirywiad a sut i gofnodi'r camau a gymerwyd. Mae'r canllawiau asesu cydymffurfiaeth yn cynnwys dull tri cham awgrymedig o asesu cydymffurfiaeth â'r Gyfarwyddeb. sgrinio, cwmpasu ac asesu manwl. Mewn sefyllfa lle gallai gweithgaredd atal y corff dŵr rhag cyflawni statws da neu achosi dirywiad gellid caniatáu iddo barhau os bydd yn cwrdd â gofynion Erthygl 4.7.

Dangosodd dyfarniad (dyfarniad Weser/achos Bund) diweddar Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd bwysigrwydd cwblhau asesiad y Gyfarwyddeb yn ystod y cam cynllunio.

Pwyntiau i'w nodi: Dylid ystyried y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn ystod cam cynnar wrth gynllunio prosiect a'i chynnwys mewn trafodaethau cyn ymgeisio i sicrhau bod mesurau osgoi, lliniaru a/neu wella'n cael eu hymgorffori i'r prosiect lle bo'n briodol i leihau costau ar gyfer yr ymgeisydd ac i ddarparu'r canlyniadau amgylcheddol gorau.

Nid yw'r Gyfarwyddeb yn rhagnodi'r diwyg neu'r broses i'w dilyn ar gyfer asesiadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae hyn yn caniatáu ymgymryd â dull hyblyg a chymesur.

Rhaid i asesiad y Gyfarwyddeb ystyried:

- yr holl weithgareddau a gynhelir; a,
- phob cam o'r gweithgaredd, er enghraifft adeiladu, gweithredu, cynnal a digomisiynu.

### 5. Amserlen

Mae'r amserlen ar gyfer yr ymgynghoriadau gofynnol dan y Gyfarwyddeb i'w gweld yn Ffigur 5 ar gyfer yr ail gylchred. Caiff y Cynllun Rheoli Basnau Afon terfynol ei gyhoeddi yn 2027.

**Ffigur 5 Amserlen**

Cam	Dyddiad a Hyd	Diben?
<p><b>Gweithio gyda'n gilydd –</b> Ymgynghoriad statudol</p>	<p>Ymgynghoriad: 22 Mehefin 2018 i 22 Rhagfyr 2018</p> <p>6 mis o hyd</p> <p>Dogfen ymateb i'w chyhoeddi fis Mawrth 2019</p>	<p><b>'Sut y dylem ni gyd weithio gyda'n gilydd i ddiweddarau'r cynlluniau rheoli basnau afon?'</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gofyn sut yr hoffwch gael eich cynnwys.</li> <li>• Egluro'r camau allweddol ym mhroses gynllunio cam tri ar gyfer rheoli basnau afon.</li> <li>• Sefydlu rhwydwaith o gysylltiadau ar gyfer cynllunio cam tri.</li> </ul>
<p><b>Heriau a Dewisiadau –</b> Ymgynghoriad statudol</p> <p>Problemau Rheoli Dŵr Sylweddol</p>	<p>Ymgynghoriad: 22 Mehefin 2019 i 22 Rhagfyr 2019</p> <p>6 mis o hyd</p> <p>Dogfen ymateb i'w chyhoeddi fis Mawrth 2020</p>	<p><b>'Beth yw'r problemau amgylchedd dŵr sylweddol a beth y gellir ei wneud yn eu cylch?'</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwella a rhannu tystiolaeth a gesglir trwy ail gylchred y cynlluniau basn afon.</li> <li>• Ceisio safbwyntiau ar ddatrysiadau.</li> <li>• Datblygu'r sawl y dylwn fod yn gweithio gydag ef i gyflawni canlyniadau amgylcheddol.</li> </ul>
<p><b>Cynllun diweddaredig drafft ar gyfer Rheoli Basn Afon –</b> Ymgynghoriad statudol</p>	<p>Ymgynghoriad: 22 Mehefin 2020 i 22 Rhagfyr 2020</p> <p>6 mis o hyd</p> <p>Dyddiad cyhoeddi'r ddogfen ymateb – Mawrth 2021</p>	<p><b>'A yw'r cynllun drafft yn amlinellu'r lefel gywir o uchelgais ar gyfer yr amgylchedd dŵr ac ymrwymiad i gyflenwi?'</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Darogan statws cyrff dŵr yn 2021 a 2027</li> <li>• Amcanion drafft cyrff dŵr</li> <li>• Mesurau i gyflenwi, gan gynnwys perchenogaeth o gamau gweithredu lleol a strategol</li> <li>• Sut rydym yn cyflenwi ar raddfa leol (dalgyloedd)</li> </ul>
<p>Cyhoeddi <b>Cynlluniau Rheoli Basn Afon 2021-2027</b> diweddaredig</p>	<p>Dyddiad cyhoedd, Rhagfyr 2021</p>	<p><b>'Bydd y cynllun yn mynd i'r afael â'r problemau'</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymeradwywyd gan y llywodraeth fel cynlluniau statudol</li> <li>• Mesurau wedi'u blaenoriaethu, yn seiliedig ar drefniadau realistig ar gyfer cymhwyso mesurau ac egwyddorion fforddiadwyedd</li> <li>• Darparu fframwaith ar gyfer gwelliannau amgylcheddol sylweddol i 2021 a thuag at 2027</li> </ul>

## 6. Ffynonellau Cymorth a Rhagor o Wybodaeth

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â: [Jean-Francois Dulong](#), Swyddog Llifogydd a Dŵr, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru neu [Jill Brown](#), Swyddog Cyfathrebu'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Ffigur 6 Cynhyrchion y Gyfarwyddeb: Ble i ddod o hyd i wybodaeth**

System	Gwybodaeth ar gael	Cyswilt
<b>Arsylwi Dyfroedd Cymru</b> <a href="#">(allanol)</a>	Mae'r data canlynol ar gyfer pob corff dŵr yng Nghymru ar gael ar Arsylwi Dyfroedd Cymru: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Canlyniadau dosbarthu</li> <li>• Rhesymau dros beidio â chyflawni statws da</li> <li>• Amcanion corff dŵr</li> <li>• Rhesymau dros amcanion statws eraill</li> <li>• Monitro rhwydweithiau</li> <li>• Mesurau gofynnol i wella cyrff dŵr i statws da</li> <li>• Ardaloedd Gwarchoddedig</li> </ul>	<a href="#">Arsylwi Dyfroedd Cymru</a>
<b>Cynllun Rheoli Basn Afon</b> <a href="#">(allanol)</a>	Crynodeb o'r prif risgiau a phwysau ar gyfer pob Ardal Basn Afon, ynghyd â Rhaglen Fesurau. Mae hefyd yn cynnwys ffeithluniau a chrynodebau rheoli dalgylch.  Cynlluniau i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb a swyddogaeth y Panelau Cyswilt.	<a href="#">Cynlluniau Rheoli Basn Afon yr ail gylchred</a>  <a href="#">Gweithio gydag eraill</a>
Lle <a href="#">(allanol)</a>	Ffiniau ardaloedd <a href="#">Cadwraeth</a> , gwybodaeth am <a href="#">rwydweithiau</a> cynefinoedd a bioamrywiaeth, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Daearol / <a href="#">Arolwg cynefinoedd rhynglanwol Cam 1</a></li> <li>• <a href="#">System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth</a></li> <li>• Canlyniadau dosbarthiad y Gyfarwyddeb (defnyddiwch wybodaeth cylchred 2)</li> <li>• <a href="#">Mannau sy'n effeithio ar ddyfroedd ymdrochi</a></li> </ul>	<a href="http://lle.gov.wales/home?lang=Cy">http://lle.gov.wales/home?lang=Cy</a>
Porth y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol <a href="#">(allanol)</a>	<a href="#">Gwybodaeth am gynefinoedd a rhywogaethau gwarchoddedig</a>	<a href="https://data.nbn.org.uk/">https://data.nbn.org.uk/</a>
<b>Archwiliwr Data Dalgylch.</b> <a href="#">(allanol)</a>	Gwybodaeth ddosbarthu am gyrff dŵr yn Lloegr	<a href="http://environment.data.gov.uk/catchment-planning/">http://environment.data.gov.uk/catchment-planning/</a>
Cofrestr Ardal Warchoddedig <a href="#">(allanol)</a>	Amcanion ar gyfer pob ardal warchoddedig	<a href="#">Cofrestr Ardal Warchoddedig</a>

System	Gwybodaeth ar gael	Cyswilt
Cylchlythyr y Gyfarwyddeb (allanol)	Mae'r cylchlythyr yn hyrwyddo enghreifftiau o waith sy'n cael ei gyflenwi i wella amgylchedd dŵr Cymru gan bartneriaid a grwpiau eraill.	<a href="#">Cylchlythyr y Gyfarwyddeb</a>

## 7. Rhestr Termau

Nod y rhestr ganlynol yw esbonio'n fras nifer o'r geiriau, yr ymadroddion a'r acronymau a ddefnyddir yng nghyswilt y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

Term	Esboniad
Corff dŵr artiffisial	Gweler Corff Dŵr sydd wedi'i Addasu'n Sylweddol
Cyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi	Deddfwriaeth y Gymuned Ewropeaidd (76/160/Y Gymuned Economaidd Ewropeaidd (y GEE)) sy'n mynnu bod Aelod Wladwriaethau'n cymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau bod dyfroedd ymdrochi dynodedig yn cyrraedd safonau ansawdd penodol a bennir i warchod yr amgylchedd ac iechyd y cyhoedd. Gwnaeth y Gyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi "newydd" (2006/7/CE) ddiddymu'r Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi flaenorol (76/160/CE) yng Nghymru yn 2014.
Elfen fiolegol	Term torfol am grŵp penodol o anifeiliaid neu blanhigion nodweddiadol sy'n bresennol mewn ecosystem ddyfrol (er enghraifft ffytoplanton, infertebrata benthig, ffytobenthos, macroffytâu, macroalgâu, angiosbermau, pysgod).
Dangosyddion biolegol	Paramedr y gellir ei fonitro i amcangyfrif gwerth elfen ansawdd fiolegol. Gall y dangosyddion gynnwys presenoldeb neu absenoldeb rhywogaeth arbennig o sensitif.
Elfen ansawdd fiolegol	Nodwedd neu briodwedd ar elfen fiolegol sydd wedi'i rhestru'n benodol yn Atodiad V y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr i ddiffinio statws ecolegol corff dŵr, (er enghraifft cyfansoddiad infertebrata, digonedd o angiosbermau; strwythur oedran pysgod).
Dalgylch	Yr ardal o le mae glawiad yn cyfrannu at y llif o dardell ddyfrdwl, afon neu lyn. O ran afonydd a llynnoedd, mae hyn yn cynnwys isafonydd a'r ardaloedd y maent yn eu draenio.
Statws Cemegol (dyfroedd wyneb)	Statws dosbarthu'r corff dŵr wyneb. Asesir hyn yn ôl y graddau y cydymffurfir â'r safonau amgylcheddol ar gyfer cemegion sydd wedi'u rhestru yng Nghyfarwyddeb Safonau Ansawdd Amgylcheddol 2008/105/CE, sy'n cynnwys sylweddau â blaenoriaeth, sylweddau peryglus â blaenoriaeth ac wyth o lygryddion eraill sydd wedi'u trosglwyddo o'r Gyfarwyddebau Sylweddau Peryglus (Epil Gyfarwyddeb). Mesurir statws cemegol ar sail 'da' neu 'fethu'. Pennir dosbarthiad statws cemegol y corff dŵr, a'r hyder yn y dosbarthiad hwn (uchel neu isel), ar sail y canlyniad gwaethaf yn y prawf.

Statws Cemegol (dŵr daear)	Ffordd o fynegi ansawdd cyffredinol y corff dŵr daear. Statws corff dŵr daear yn ôl dosbarthiad ar sail y meini prawf amgylcheddol a bennir yn y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'r Gyfarwyddeb Dŵr Daear (2006/118/CE), fel y'u pennir yn nogfen ganllaw Rhif 18 Y Strategaeth Gweithredu Gyffredin. Rhaid asesu'r statws cemegol drwy bennu a yw'n dda ynteu'n wael ar gyfer pob un o'r pum prawf, a phennir y statws cemegol cyffredinol a'r hyder ynddo (uchel neu isel) ar sail y canlyniad gwaethaf yn y prawf.
Dosbarthiad	Dull o wahaniaethu'r cyflwr amgylcheddol neu "statws" cyrff dŵr, a'u gosod mewn un categori neu mewn categori arall.
Cyd-ddarparwr	Asiantaethau a sefydliadau sydd â phwerau statudol neu sydd â'r pŵer i weithredu camau yn ôl y gofyn i roi Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd ar waith.
Awdurdod Cymwys	Awdurdod neu awdurdodau a nodir o dan Erthygl 3(2) neu 3(3) y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Bydd yr Awdurdod Cymwys yn gyfrifol am roi rheolau'r Gyfarwyddeb ar waith ym mhob ardal basn afon sydd o fewn ei diriogaeth.
Cost-effeithiol	Yng nghyd-destun y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, mae'n disgrifio'r opsiwn rhataf ar gyfer cyflawni amcan. Er enghraifft, lle bydd nifer o gamau posibl y gellid eu rhoi ar waith i sicrhau Statws Ecolegol Da ar gyfer corff dŵr, defnyddir Dadansoddiad Cost Effeithiolrwydd i gymharu pob un o'r opsiynau a nodi pa un o'r opsiynau sy'n cyflenwi'r amcan am y gost gyffredinol leiaf.
Llygredd gwasgaredig	Llygredd sy'n deillio o ffynonellau gwasgaredig neu ar chwâl sydd, gyda'i gilydd, yn sylweddol er bod eu heffeithiau'n anodd eu priodoli i ffynonellau unigol.
Potensial ecolegol	Statws corff dŵr sydd wedi'i addasu'n sylweddol neu gorff dŵr artiffisial wedi'i fesur yn ôl yr ansawdd ecolegol gorau y gallai ei gyflawni o ystyried y cyfyngiadau sydd arno oherwydd y nodweddion artiffisial neu'r nodweddion hynny sydd wedi'u haddasu'n sylweddol ac sy'n angenrheidiol oherwydd y ffordd mae'n cael ei ddefnyddio. Mae pum dosbarth potensial ecolegol ar gyfer Cyrff Dŵr sydd wedi'u Haddasu'n Sylweddol/Cyrff Dŵr Artiffisial (gorau, da, gweddol, gwael a gwaethaf).
Statws ecolegol	Mae statws ecolegol yn berthnasol i gyrff dŵr wyneb ac fe'i seilir ar yr elfennau ansawdd a ganlyn: ansawdd biolegol, ansawdd cemegol a ffisigocemegol cyffredinol, ansawdd dŵr gyda golwg ar lygryddion penodol (synthetig ac ansynthetig), ac ansawdd hydromorffolegol. Mae pum dosbarth o statws ecolegol (uchel, da, gweddol, gwael neu isel). Gyda'i gilydd, mae statws ecolegol a statws cemegol yn diffinio statws dŵr wyneb cyffredinol corff dŵr.

Ecosystem	Cymunedau o organebau byw yw ecosystemau (gan gynnwys popeth o ficro-organebau, i ffyngau, planhigion, anifeiliaid a phobl), eu hamgylchoedd anfyw (creigiau, priddoedd, aer, môr, dŵr ac ati), a'r holl ryngweithio sy'n digwydd rhyngddynt. Mae gweithgareddau pobl yn rhan o ecosystemau a gallant ddylanwadu'n fawr arnynt.
Gwasanaethau Ecosystemau	Disgrifir gwasanaethau ecosystemau fel "y buddion a gaiff pobl gan ecosystemau". Gellir eu rhannu'n bedwar categori: <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>System a gwasanaethau cynnal</b> sy'n angenrheidiol er mwyn cynhyrchu pob gwasanaeth ecosystem arall, megis ffurfio pridd, cylchu maetholion a chynhyrchu cynradd.</li> <li>• <b>Gwasanaethau darparu</b> megis cnydau, pysgod, coed a deunydd genetig.</li> <li>• <b>Gwasanaethau rheoleiddio</b> megis puro dŵr, mecanweithiau rheoli biolegol, dal a storio carbon, peillio cnydau sy'n fasnachol werthfawr ac ati.</li> <li>• <b>Gwasanaethau diwylliannol</b> sy'n darparu ffynhonnell i gyfoethogi profiadau esthetig, ysbrydol, crefyddol, adloniannol neu wyddonol.</li> </ul>
Asiantaeth yr Amgylchedd	Corff cyhoeddus anadrannol a noddi gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn Lloegr yw Asiantaeth yr Amgylchedd.
Cyfarwyddeb Llifogydd	Diben Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd ar lifogydd (2007/60/CE) yw sefydlu fframwaith i asesu a rheoli perygl llifogydd gan geisio lleihau canlyniadau andwyol ar iechyd pobl, yr amgylchedd, y dreftadaeth ddiwylliannol a'r gweithgarwch economaidd sy'n gysylltiedig â llifogydd yn y Gymuned. Mae'n mynnu bod aelod wladwriaethau'n cynnal asesiadau perygl llifogydd, yn mapio perygl llifogydd ac yn cyhoeddi cynlluniau rheoli perygl llifogydd. Cyhoeddwyd y Gyfarwyddeb ddechrau mis Tachwedd 2007 a rhaid ei throsi'n gyfraith yn y Deyrnas Unedig erbyn 26 Tachwedd 2009. (GWIRIO HWN – CHECK THIS)
Statws cemegol da (dyfroedd wyneb)	Mae hyn yn golygu nad yw crynodiadau o gemegion yn y corff dŵr yn fwy na'r safonau amgylcheddol a bennwyd yng Nghyfarwyddeb Safonau Ansawdd Amgylcheddol 2008/105/CE. Mae'r cemegion hyn yn cynnwys Sylweddau â Blaenoriaeth, Sylweddau Peryglus â Blaenoriaeth ac wyth o lygryddion eraill a drosglwyddwyd o'r Cyfarwyddebau Sylweddau Peryglus (Epil Gyfarwyddeb).
Statws cemegol da (dŵr daear)	Gweler statws cemegol (dŵr daear). Mae hyn yn golygu nad yw'r crynodiadau o lygryddion yn y corff dŵr daear yn fwy na'r meini prawf a bennwyd yn Erthygl 3 o'r Gyfarwyddeb Dŵr Daear (Epil Gyfarwyddeb) (2005/118/CE).

Potensial ecolegol da	Rhaid i'r dyfroedd wyneb hynny a elwir yn Gyrrff Dŵr sydd wedi'u Haddasu'n Sylweddol ac yn Gyrrff Dŵr Artiffisial sicrhau "potensial ecolegol da" (mae potensial da yn cydnabod y gall newidiadau i forffoleg olygu ei bod yn anodd iawn cyrraedd statws ecolegol da). Yn ystod cylchred gyntaf cynllunio ar gyfer basn afon, gellir diffinio potensial da mewn perthynas â'r mesurau lliniaru y bydd angen eu cymryd er mwyn cyflawni hynny.
Statws ecolegol da	Amcan hyn yw bod nodweddion biolegol, strwythurol a chemegol corff dŵr wyneb yn debyg i'r rheini y disgwyliid eu gweld dan amodau sydd bron yn llonydd.
Statws meintiol da (dŵr daear)	Gweler statws meintiol (dŵr daear). Mae hyn yn golygu bod lefel y dŵr daear yn y corff dŵr daear yn diwallu'r meini prawf sydd yn Atodiad V (2.1.2) y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.
Statws da	Term yw hwn sy'n golygu'r statws a gyflawnir gan gorff dŵr daear pan fo'r statws ecolegol a'i statws cemegol o leiaf yn dda, neu, ar gyfer dŵr daear, pan fo'i statws meintiol a'i statws cemegol yn dda.
Dŵr llwyd	Dŵr gwastraff o sinciau, baddonau, cawodydd a rhai mathau o gyfarpar domestig, cyn iddo gyrraedd y garthffos (neu system y tanc septig).
Dŵr daear	Yr holl ddŵr sydd o dan wyneb y tir yn y gylchfa ddirlawnder ac mewn cysylltiad uniongyrchol â'r ddaear neu'r isbridd.
Corff Dŵr sydd wedi'i Addasu'n Sylweddol	Corff dŵr wyneb nad yw'n sicrhau statws ecolegol da oherwydd newidiadau sylweddol i'w gymeriad ffisegol sy'n deillio o'r newidiadau ffisegol a achosir gan ddefnydd dynol, ac sydd wedi'i ddynodi, yn unol â meini prawf a amlinellir yn y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, yn un sydd "wedi'i addasu'n sylweddol".
Statws ecolegol uchel	Cyflwr yw hwn, mewn corff dŵr wyneb, lle bydd gwerthoedd yr elfennau ansawdd hydromorffolegol, ffisigocemegol a biolegol yn cyfateb i gyflyrau nad yw gweithgareddau athropogenaidd yn tarfu arnynt.
Rhywogaethau Estron Goresgynnol	Rhywogaethau estron. Mae sawl rhywogaeth o blanhigion ac anifeiliaid wedi'u cyflwyno i'r wlad hon ers oes y Rhufeiniaid. Mae sawl un o'r rhywogaethau estron hyn yn oresgynnol ac maent wedi bod yn achosi problemau difrifol i ecoleg ac amgylchedd dyfrol ac afonol. Rhai o'r problemau hyn yw niweidio ein rhywogaethau brodorol, dad-ocsigeneiddio dŵr gan ladd pysgod, creu rhwystrau mewn afonydd a sianelau draenio, ysglyfaethu a chystadlu â'n rhywogaethau brodorol, ac, mewn rhai achosion, maent yn peryglu iechyd y cyhoedd neu dda byw.
Panelau Cyswllt	Panel sy'n cynnwys oddeutu 15 cynrychiolydd o gyd-ddarparwyr strategol, gan gynnwys cyrrff â phwerau statudol ac eraill y bydd angen iddynt roi camau ar waith ar gyfer yr Ardal Basn Afon. Mae'r panel yn cynrychioli'r holl fuddiannau allweddol o fewn yr Ardal Basn Afon a'r panel yw'r prif ffocws ar gyfer ymgysylltu ar lefel yr Ardal Basn Afon.
Macroalgâu	Algâu amlgellog megis gwymon.



Mesur	Defnyddir y term hwn yn y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ac mewn deddfwriaeth ddomestig. Mae'n golygu cam gweithredu a gymerir ar lawr gwlad er mwyn helpu i gyflawni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.
Mecanweithiau	Yr offerynnau polisi, cyfreithiol ac ariannol a ddefnyddir er mwyn galluogi camau gweithredu (mesurau). Mae dulliau'n cynnwys, er enghraifft: deddfwriaeth, offerynnau economaidd; codau arferion da; cytundebau a negodir; hyrwyddo effeithlonrwydd dŵr; prosiectau addysg; ymchwil; prosiectau datblygu ac arddangos.
Cam-gysylltu	Mae cam-gysylltu carthffosydd â draeniau dŵr wyneb yn ffynhonnell sylweddol o lygredd gwasgaredig trefol yn yr ardaloedd hynny lle y defnyddir system ddraenio ar wahân. Mae cam-gysylltu'n digwydd pan fo gwaith plymio domestig wedi cael ei gysylltu â draeniau dŵr wyneb yn hytrach nag â'r garthffos fudr. Mae hyn yn golygu bod dŵr budr sydd heb ei drin yn mynd yn syth i afonydd/dyfrffyrdd heb gael ei drin.
Cynulliad Cenedlaethol Cymru	Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnwys 60 o Aelodau sy'n cael eu hethol o bob rhan o Gymru. Mae'r Cynulliad wedi dirprwyo llawer o'i bwerau i'r Prif Weinidog, sy'n arwain Llywodraeth Cymru. Mae'r Cynulliad yn penderfynu ar ei flaenoriaethau ac yn dyrannu'r arian a ddarperir ar ei gyfer gan y Trysorlys. O fewn ei bwerau, mae'r Cynulliad yn datblygu ac yn gweithredu polisiau sy'n adlewyrchu anghenion penodol pobl Cymru.
Safleoedd Natura 2000	Ardaloedd Gwarchoddedig a sefydlwyd i warchod cynefinoedd neu rywogaethau o dan y Gyfarwyddeb Adar (79/409/CE) (Ardaloedd Gwarchoddedig Arbennig) a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (92/43/CEE) (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig).
Dim gwaethygiad (yn statws corff dŵr)	Nid oes yr un o'r elfennau ansawdd a ddefnyddir wrth ddsbarthu statws corff dŵr yn dirywio i'r graddau y mae'r statws cyffredinol yn gwaethygu.
Llygrydd nad yw'n beryglus	Unrhyw sylwedd nad yw'n sylwedd peryglus ond y gall achosi llygredd pan fo niferoedd sylweddol ohono.
Rhywogaethau estron	Gweler Rhywogaethau Estron Goresgynnol
Amcan (dyfroedd wyneb)	Mae tri amcan statws gwahanol ar gyfer pob corff dŵr, sef: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Amcan statws cyffredinol</li> <li>• Amcan statws ecolegol neu botensial ecolegol; ac</li> <li>• Amcan statws cemegol</li> </ul> Mae dyddiad bob tro gyda'r rhain sy'n nodi erbyn pa bryd y cyflawnir yr amcan. Bydd <u>amcanion statws ecolegol (neu botensial)</u> yn deillio o'r canlyniadau rhagweledig ar gyfer yr elfennau biolegol a'r elfennau ffisigocemegol, yn ogystal ag unrhyw resymau dros beidio â chyflawni statws ecolegol da (neu botensial) erbyn 2021. Bydd <u>amcanion statws cemegol</u> yn deillio o'r canlyniadau rhagweledig ar gyfer yr elfennau cemegol, yn ogystal ag unrhyw resymau dros beidio â chyflawni statws cemegol da erbyn 2021. Bydd <u>amcanion statws cyffredinol</u> yn deillio o'r amcanion statws ecolegol a'r amcanion statws cemegol.

Amcan (dŵr daear)	<p>Mae tri amcan statws gwahanol ar gyfer pob corff dŵr daear, sef:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Amcan statws cyffredinol;</li> <li>• Amcan statws meintiol; ac</li> <li>• Amcan statws cemegol.</li> </ul> <p>Mae dyddiad bob tro gyda'r rhain sy'n nodi erbyn pa bryd y cyflawnir yr amcan.</p> <p>Bydd <u>amcanion statws cyffredinol</u> yn deillio o'r amcanion statws meintiol a'r amcanion statws cemegol.</p> <p>Yn ogystal ag amcanion statws, mae amcanion amgylcheddol ychwanegol hefyd: i atal y statws rhag gwaethygu, i atal neu gyfyngu ar lygryddion rhag mynd i ddŵr daear ac i wrthdroi unrhyw gynnydd sylweddol a pharhaus o ran crynodiadau o lygryddion.</p>
Ffytobenthos	Planhigion dyfrol amlgellog ac ungellog sy'n byw ar y gwely, megis rhai rhywogaethau o ddiatom.
Ffytoplancton	Algâu a cyanobacteria ungellog, rhai sy'n byw ar eu pennau eu hunain ac mewn cytref, ac, am ran o'u cylch bywyd o leiaf, yn y golofn ddŵr.
Llygrydd	Unrhyw sylwedd sy'n debygol o achosi llygredd.
Llygredd	Cyflwyno'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, o ganlyniad i weithgarwch pobl, sylweddau neu wres i'r aer, i'r dŵr neu i'r tir sydd: (i) o bosibl yn niweidiol i iechyd pobl neu i ansawdd ecosystemau dyfrol neu ecosystemau daearol sy'n dibynnu'n uniongyrchol ar ecosystemau dyfrol; (ii) yn peri difrod i eiddo materol; neu (iii) yn amharu neu'n tarfu ar amwynderau ac ar ddulliau dilys eraill o ddefnyddio'r amgylchedd.
Canlyniad rhagweledig	Statws elfen ansawdd neu gorff dŵr yn y dyfodol ar sail grwpiau o fesurau ymarferol sydd wedi'u cyfiawnhau a'r dyddiad y cyflawnir y statws hwn.
Pwysau	Gweithgareddau dynol megis echdynnu, gollwng elifion neu waith peirianegol a allai effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd dŵr.
Sylweddau â blaenoriaeth	Llygrydd, neu grŵp o lygryddion, sy'n peryglu'r amgylchedd dyfrol (dŵr wyneb) yn sylweddol (neu'n achosi perygl drwyddo), a hwnnw'n llygrydd sydd wedi'i nodi ar lefel y Gymuned o dan Erthygl 16 y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae'r rhain yn cynnwys "sylweddau peryglus â blaenoriaeth".
Ardaloedd Gwarchoddedig	Ardaloedd sydd wedi'u dynodi'n rhai y mae angen eu gwarchod yn arbennig o dan ddeddfwriaeth y Gymuned er mwyn gwarchod eu dŵr wyneb a'u dŵr daear neu er mwyn gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau sy'n dibynnu'n uniongyrchol ar ddŵr.
Elfen ansawdd	Un o nodweddion ecosystem ddyfrol (dŵr wyneb) y gellir ei ddisgrifio ar ffurf rhif er mwyn cyfrifo cymhareb ansawdd ecolegol, megis crynodiad llygrydd; nifer o rywogaethau o fath o blanhigyn.

Statws meintiol (dŵr daear)	<p>Term sy'n mynegi i ba raddau y mae echdynnu uniongyrchol ac anuniongyrchol yn effeithio ar gorff dŵr daear.</p> <p>Statws dosbarthiad corff dŵr daear ar sail y meini prawf amgylcheddol a bennir yn y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ac fel y'i hamlinellir yn nogfen ganllaw Rhif 18 Y Strategaeth Gweithredu Gyffredin. Rhaid i bob un o'r pedwar prawf cydrannol ar gyfer statws meintiol gael eu hasesu'n dda neu'n wael, a phennir y statws meintiol cyffredinol a'r hyder ynddo (uchel neu isel) ar sail y canlyniad gwaethaf yn y prawf.</p>
Risg	Tebygolrwydd canlyniad (negyddol gan amlaf) i gorff dŵr neu'r amgylchedd, neu effaith bosibl pwysau ar gorff dŵr.
Asesiad risg	Asesiad sy'n darogan y tebygolrwydd bod corff dŵr mewn perygl sylweddol o fethu â chyflawni un neu fwy o amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.
Basn Afon	<p>Basn afon yw'r ardal o dir lle mae'r holl ddŵr wyneb ffo a dŵr codi'n llifo trwy gyfres o nentydd, llynnoedd ac afonydd i'r môr drwy aber afon, moryd neu ddelta unigol.</p> <p>Mae'n cynnwys un neu fwy o ddalgylchoedd unigol.</p>
Ardal Basn Afon	Basn afon neu sawl basn afon, ynghyd â dyfroedd arfordirol cysylltiedig.
Rheoli Basnau Afonydd	Y broses reoli a'r broses gynllunio gysylltiedig sy'n tanategu'r gwaith o weithredu'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae'n broses drosfwaol o ran prosesau sydd ohoni ac mae hefyd yn diffinio is-brosesau newydd, megis y rheini ar gyfer hydromorffoleg. Cynlluniau ar gyfer rheoli basnau afonydd yw'r cynlluniau rheoli basnau afonydd.
Cynllun Rheoli Basnau Afonydd	Ar gyfer pob Ardal Basn Afon, mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn mynnu bod Cynllun Rheoli Basn Afon yn cael ei gyhoeddi. Cynlluniau yw'r rhain sy'n pennu'r amcanion amgylcheddol ar gyfer yr holl gyrff dŵr yn yr Ardal Basn Afon a sut y cyflawnir y rhain. Seilir y cynlluniau ar ddadansoddiad manwl o'r pwysau sydd ar y cyrff dŵr ac ar asesiad o'u heffeithiau. Rhaid adolygu a diweddarau'r cynlluniau bob chwe blynedd.
Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig	<p>Ardal o dir a ddatgenir ei bod dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad</p> <p>1981 gan y corff cadwraeth natur priodol (Scottish Natural Heritage yn yr Alban) yn ardal o ddiddordeb arbennig oherwydd ei fflora a'i ffawna neu ei nodweddion daearegol neu ffisiolddaearyddol.</p>
Parth Gwarchod Tarddiad	Parth o gwmpas ffynnon, twll turio neu darddell lle tynnir dŵr daear i'w ddefnyddio gan bobl (er enghraifft dŵr yfed neu gynhyrchu bwyd). Parth 1 (SPZ1) yw'r ardal agosaf at y man lle tynnir y dŵr, gan gynrychioli'r perygl mwyaf i'r tarddiad. Mae Parthau 2 a 3 yn gynyddol fwy. Rhoddir Polisiâu Seiliedig ar Risg ar waith yn y parthau hyn er mwyn atal llygredd.
Cynllunio Gofodol	Mae cynllunio gofodol yn ehangach ei gwmpas na chynllunio defnydd tir sydd wedi'i seilio ar reoleiddio a rheoli tir, a'r nod yw sicrhau bod tir yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau drwy asesu gofynion sy'n cystadlu â'i gilydd. Ystyrir ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol wrth ddod i benderfyniad sy'n fwy cydnaws â datblygu cynaliadwy.

Ardal Cadwraeth Arbennig	Safleoedd Natura 2000 sydd wedi'u dynodi o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd.
Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig	Safleoedd Natura 2000 sydd wedi'u dynodi o dan y Gyfarwyddeb Adar.
Llygrydd Penodol	Sylwedd yr ystyrir bod symiau sylweddol ohono'n cael ei ollwng i'r amgylchedd dyfrol ar lefel genedlaethol ac y sefydlwyd Safonau Ansawdd Amgylcheddol ar ei gyfer. Fel rhan o'r meini prawf dosbarthu ecolegol, ac mewn mannau lle y caiff y llygryddion hyn eu monitro, rhaid bodloni'r safonau hyn, er mwyn i gorff dŵr wyneb gael ei ddsbarthu'n un sydd â statws ecolegol da.
Systemau Draenio Cynaliadwy	System o arferion a strwythurau rheoli a ddyluniwyd i ddraenio dŵr daear mewn modd sy'n fwy cynaliadwy nag y mae rhai technegau confensiynol.
Corff dŵr	Uned o ddŵr wyneb y gellir ei rheoli, sef nant, afon neu gamlas, llyn neu gronfa ddŵr, dŵr trosiannol (aber) neu ddarn o ddŵr arfordirol, a hynny yn ei chyfanrwydd ynteu'n rhannol. Mae "corff dŵr daear" yn gyfaint penodol o ddŵr daear o fewn dyfrhaen neu ddyfrhaenau.
Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr	Deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd – Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (2000/60/CE) – sy'n sefydlu fframwaith ar gyfer gweithredu gan y Gymuned Ewropeaidd ym maes polisi dŵr.
Amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr	Yr amcanion a amlinellir yn Erthygl 4 y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ynghyd â'r amcanion ym mharagraffau 2 a 3 Erthygl 7 o'r Gyfarwyddeb ac y mae gofyn eu cyflawni.
Tabl dŵr	Terfyn uchaf y parth dirlawn.
Defnyddio dŵr	Gwasanaethau Dŵr ynghyd ag unrhyw weithgarwch dynol arall a nodwyd eu bod yn effeithio'n sylweddol ar statws dŵr.
Pwysau'r dystiolaeth	Mae defnyddio dull pwysau'r dystiolaeth yn cydblethu canlyniadau neu dystiolaeth o sawl ffynhonnell ddata, a'r rheini wedi'u pwysoli'n briodol, er mwyn gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar risg.
Llywodraeth Cymru	Llywodraeth ddatganoledig Cymru.
Nodiadau Cyngor Technegol Cymru	Mae <i>Polisi Cynllunio Cymru</i> (2002) yn amlinellu polisiâu cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru. Caiff ei ategu gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (Cymru) sy'n seiliedig ar bynciau penodol. Gall Nodiadau Cyngor Technegol fod yn berthnasol i benderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio unigol ac fe'u hystyrir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac arolygwyr cynllunio wrth benderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio a elwir i mewn ac apeliadau.

Cyhoeddwyd gan:

Cyfoeth Naturiol Cymru

Tŷ Cambria

29 Heol Casnewydd

Caerdydd

CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun-Gwen, 8am - 6pm) [enquiries@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:enquiries@naturalresourceswales.gov.uk)

[www.cyfoethnaturiol.cymru](http://www.cyfoethnaturiol.cymru)

© Cyfoeth Naturiol Cymru diweddarwyd Tachwedd 2017

Cedwir pob hawl. Cewch atgynhychu'r ddogfen hon trwy ganiatâd o flaen llaw gan Cyfoeth Naturiol Cymru.